Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2012-13**

## YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2012-13

### Rhagair gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
### Prif Weinidog Cymru

Rwy'n falch iawn o gael ymateb i Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant.

Fel y wlad gyntaf yn y DU i sefydlu swydd Comisiynydd Plant, rydym yn gwerthfawrogi gwaith y Comisiynydd yn fawr iawn, ac yn cymryd y pryderon y mae'n eu codi yn yr adroddiad o ddifrif. Rwy'n credu bod ei adroddiad yn edrych mewn ffordd gytbwys ond heriol ar y prif faterion sy'n wynebu plant a phobl ifanc Cymru heddiw.

Mae'n hymateb yn ymdrin yn fanwl â'r materion unigol a godwyd gan y Comisiynydd yn ei adroddiad. Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod y Comisiynydd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru'n parhau i osod Hawliau Plant wrth galon ein polisïau a'n deddfwriaeth. Mae'r ffaith i ni gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a'n hymrwymiad iddo, yn dangos hyn yn glir. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori CCUHP yn y gyfraith.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd Cyfraniad Llywodraeth Cymru at 5ed adroddiad y Deyrnas Unedig sy'n barti i'r Confensiwn ar gyfer Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r adroddiad yn dangos sut mae hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu ar draws pob portffolio yn y llywodraeth, ac yn dystiolaeth glir fod Cymru'n arwain y ffordd. Ym mis Mai'r flwyddyn nesa, bydd ein hymrwymiad at hawliau plant yn mynd ymhellach pan fydd sylw dyledus i'r CCUHP yn cael ei ymestyn i'r holl weithredoedd Gweinidogol.

Mae adroddiad y Comisiynydd yn cyfeirio at 2012/13 ac rwy'n falch iawn o ddweud bod pethau wedi symud ymlaen cryn dipyn. Gwelwyd nifer o ddatblygiadau cadarnhaol a fydd yn gwneud llawer i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad. Rhaid i ni beidio eistedd yn ôl, fodd bynnag, ac rwy'n cydnabod bod rhaid i ni wneud mwy.

Hoffwn ddiolch i Gomisiynydd Plant Cymru am yr adroddiad blynyddol, a chydnabod ei swyddogaeth hanfodol wrth hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc Cymru. Rwy'n siŵr y bydd ein hymateb yn dangos iddo ein bod yn cymryd ei adroddiad o ddifrif, ac y bydd ganddo hyder yn ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i weithredu'r CCUHP.

## Ymateb Llywodraeth Cymru I Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012-13

---

### NOD 1: DECHRAU'N DEG MEW BYWYD

**<u>Agenda rhesymoli</u>**

**Mae'r Comisiynydd wedi codi yr angen am ddiogelu ffocws clir ar gynnal hawliau plant a phobl ifanc yng nghyd-destun dull mwy diwastraff o integreiddio cynllunio a phartneriaethau. Cyflwynwyd dogfen statudol Llywodraeth Cymru 'Cydamcanu, Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau' ym mis Rhagfyr 2012. Bwriad polisi Llywodraeth Cymru yw rhesymoli'r broses bartneriaeth a chynllunio ar lefel leol er mwyn lleihau cymhlethdod a dyblygu, a rhyddhau adnoddau. Mae'r Comisiynydd yn nodi fod Cynlluniau a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi darparu strwythur penodol ar gyfer cefnogi cynllunio a darpariaeth lleol ar gyfer plant a phobl ifanc oddi mewn i fframwaith sydd a chysylltiad uniongyrchol a CCUHP. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn bwriadu asesu i weld a yw'r un ffocws ar gynllunio i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc fel rhan o ymagweddiad cysylltiedig a CCUHP yn cael ei adlewyrchu yn y Cynlluniau Integredig Sengl lleol.**

Mae Gweinidogion Cymru yn croesawu bwriad y Comisiynydd i asesu a yw cynllunio ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc drwy ddull cysylltiedig â CCUHP wedi'i adlewyrchu yn y Cynlluniau Integredig Unigol lleol, ac yn yr asesiadau o anghenion a chynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â nhw.

**<u>Cymorth i Deuluoedd</u>**

**Mae'r Comisiynydd yn croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn rhaglen o fentrau a luniwyd i ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth i deuluoedd mewn modd cyfannol. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y rhaglenni cymorth i deuluoedd blaenllaw a amlinellir isod yn sylweddol, ac mae awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi bod yn gweithio mewn tirlun lle ceir newid sylweddol i bolisi ac ymarfer er mwyn eu rhoi ar waith. Mae'r ffaith bod pob un o'r rhaglenni hyn yn targedu plant bregus a'u teuluoedd, a bod system o werthuso parhaus ar waith yn arwyddocaol o ran sicrhau bod bwriad polisi yn cael ei drosi'n well cyfleoedd a chanlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod eu rhaglenni cymorth blaenllaw i deuluoedd ar waith yn cynnwys ffocws cryf ar fodloni anghenion penodol plant a phobl ifanc o fewn dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y teulu.**

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus y Comisiynydd Plant i'n rhaglenni arloesol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo'r teuluoedd sy'n fwyaf difreintiedig ac yn fwyaf bregus yng Nghymru. Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu hannog i ddynodi teuluoedd a chydgysylltu a chydweithio â nhw mewn pob math o amgylchiadau anodd er mwyn eu cryfhau ac ymateb i'w hanghenion.

Mae gwaith gyda theuluoedd sy'n bregus yn galw am ymarferwyr medrus iawn sy'n gallu creu a chynnal perthynas â rhieni a meithrin ymddiriedaeth. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd da i blant dan 4 oed a nifer o fathau o gymorth i helpu rhieni i ddatblygu sgiliau a chryfder. Mewn adroddiad gwerthuso annibynnol sy'n

canolbwyntio ar brofiadau rhieni ag anghenion mawr sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg, cafwyd bod y cymorth ychwanegol gan ymwelwyr iechyd yn gyfrwng i ddarparu gwybodaeth i rieni am wasanaethau, ac i'w darbwyllo am y manteision o'u derbyn. Roedd rhieni wedi rhoi gwybod am newidiadau cadarnhaol yn eu bywyd teuluol gan gynnwys teimlo'n llai unig; bod â gwell perthnasoedd a rheolweithiau a bwyta'n iach.

Gall teuluoedd sydd â phroblemau mwy cymhleth fod ag angen cymorth dwysach i'w helpu i ddelio â'r holl fathau o heriau y gallant eu hwynebu a'u helpu i ddod yn fwy cydnerth. Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ddull integredig sy'n cynnwys y teulu cyfan i gynorthwyo teuluoedd yng Nghymru. Mae'r model 'Tîm o Amgylch y Teulu' yn cynnwys amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol sy'n cydweithio â'r teulu i'w helpu i ddelio â'r gwahanol heriau y gallant eu hwynebu. Mae'r rhaglen hon yn darparu cymorth lleol i deuluoedd hefyd drwy brosiectau a gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu'n lleol ac yn targedu blaenoriaethau lleol.

Rydym yn cydnabod bod angen amser ar ymarferwyr i fyfyrio a rhannu gwersi a ddysgwyd a dyma pam yr ydym yn ariannu'r Rhwydwaith Dechrau'n Deg, Set Ddysgu Magu Plant Teuluoedd yn Gyntaf Gogledd Cymru a'r Rhwydwaith Cydgysylltwyr Rhianta Cenedlaethol.

Mae gweithredu ein Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD) blaengar yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn ymrwymiad clir yn ein Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, i sicrhau mwy o gydweithio ac integreiddio rhwng gwasanaethau. Mae GICD yn helpu rhai o'r plant a theuluoedd sy'n fwyaf bregus, gan ganolbwyntio'n benodol ar y teuluoedd hynny lle y mae problemau camddefnyddio sylweddau gan rieni sy'n effeithio ar les eu plant. Gall amgylcheddau teuluol o'r fath fod yn anrhefnus yn aml, a gwelir problemau lluosog ynddynt gan gynnwys lefel isel o hunan-barch a thlodi. Drwy greu newidiadau cadarnhaol mewn teuluoedd, bydd llai o angen i dderbyn plant i ofal ac effaith gadarnhaol o ganlyniad i hynny ar les y teulu cyfan.

Mae GICD yn gweithredu mewn 18 o ardaloedd Awdurdod Lleol ar hyn o bryd (trefnwyd y bydd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych yn ymuno eleni) yn unol ag uchelgais y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am weithredu'r gwasanaeth ledled Cymru erbyn 2014.

**<u>Magu Plant</u>**

**Mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau a fyddai'n cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth gwasanaethau cymorth magu plant cyffredinol i rieni plant, yn unol a'r pwerau a nodwyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Galwais hefyd am i ganllawiau o'r fath gynnig cyfeiriad ar gyfer y ddarpariaeth i gynnal gofalwyr sy'n perthyn, gofalwyr maeth, gofalwyr mabwysiadol a rhieni sydd a phlentyn anabl. Rydym yn dal heb ganllawiau na strategaeth genedlaethol gyfredol i sbarduno darparu cymorth i bob rhiant a gofalwr yng Nghymru.**

**Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol fwy o ddyletswyddau i gymryd camau i atal a lleihau anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal. Dylai cymorth magu plant cyffredinol i rieni a gofalwyr fod yn elfen allweddol o'r ddarpariaeth sy'n cyflawni'r ddyletswydd hon. Bydd angen cyfeiriad cenedlaethol clir o hyd ar ddeiliaid dyletswydd ar lefel leol, er mwyn sicrhau bod cefnogaeth i ddulliau cadarnhaol o fagu plant, er lles pennaf y plentyn, yn cael ei darparu'n gyson ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau a fydd yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gymorth magu plant cyffredinol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol i hysbysu gweithrediad dyletswyddau uwch er hybu llesiant, fel y nodwyd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2013.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallwn roi dechrau gwell mewn bywyd i blant drwy ddarparu cymorth ym mlynyddoedd cyntaf y plentyn a thrwy gydweithio â rhieni. Mae "Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant" yn cydgysylltu ein gwahanol bolisïau a rhaglenni sy'n effeithio ac yn dylanwadu ar y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys cymorth i rieni.

Mae Gweinidogion yn cydnabod hefyd fod ymyrraeth gynnar yn bwysig i helpu teuluoedd a delio â phroblemau cyn iddynt droi'n argyfyngus. Er mwyn cyflawni hynny, rydym wedi darparu cyllid sylweddol i awdurdodau lleol i gyflenwi gwahanol fathau o gymorth ataliol, ar y cyd â'u partneriaid, ar gyfer teuluoedd. Rydym wedi gwneud hyn drwy Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r canllawiau strategol ar Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn disgrifio disgwyliadau ac egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer y ffordd o helpu teuluoedd.

O 2012-2015 bydd mwy na £185 miliwn yn cael ei ddarparu i Dechrau'n Deg ar gyfer refeniw a chyfalaf a bydd £128 miliwn yn cael ei ddarparu i gynorthwyo teuluoedd drwy ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae'r canllawiau strategol ar Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn disgrifio disgwyliadau ac egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer y ffordd o helpu teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys pwyslais ar ddiogelu plant; mabwysiadu dull wedi'i seilio ar gryfderau sy'n cynnwys y teulu cyfan; cynnig gwasanaethau teilwredig a hyblyg; gweithio mewn partneriaeth a sicrhau bod ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth dda a'u bod yn gallu gwneud gwahaniaeth. Mae rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio a gwersi a ddysgwyd yn elfen allweddol yn y rhaglenni hyn. Yn ogystal â'r disgwyliad y bydd setiau dysgu gan bob awdurdod lleol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, rydym hefyd wedi buddsoddi mewn gwerthusiad annibynnol o'n rhaglenni.

Yn ogystal â hyn, mae cyfanswm o £75 miliwn wedi'i neilltuo i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hyd Fawrth 2015. Mae'r rhaglen hon yn helpu pobl i wella lles a chryfhau'r gymuned yn y tymor hir ac mae'n cynnwys amrywiaeth o brosiectau sy'n canolbwyntio ar y teulu a rhieni.

Nid oes gofyniad penodol ar hyn o bryd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i gyhoeddi canllawiau ar wasanaethau cymorth magu plant cyffredinol ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol. Mater polisi i'w benderfynu fydd cynnwys y cod ymarfer a gyhoeddir wedi i'r Bil gael ei basio.

**<u>Cosb Gorfforol</u>**

**Croesawodd y Comisiynydd y ffaith fod y Cynulliad wedi pleidleisio o blaid cynnig i ddileu'r amddiffyniad "cosb resymol". Byddai potensial Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i gyflawni'r bwriad o wella llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru gryn dipyn yn fwy pe bai'r Bil yn mynd i'r afael â 'chydraddoldeb o ran diogelwch'. Nid yw Deddf Plant 2004 yn gwahardd pob cosb gorfforol o fewn y teulu. Os bydd rhiant yn taro plentyn, gall bledio amddiffyniad i gyfiawnhau hynny - un na fyddai ar gael pe bai'r dioddefwr yn 16 oed neu'n hŷn. Golyga hyn nad yw plant yn cael eu diogelu'n gydradd o dan y gyfraith. Mae'n rhaid i hyn ddod i ben. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar y mater hwn er mwyn sicrhau y diogelir plant a phobl ifanc yn gydradd ac y rhoddir neges glir i blant a phobl ifanc fod ganddynt yr hawl i fod yn ddiogel.**

**- yn annog Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau blaenorol i fynd i'r afael â hyn, gan ei fod yn mynd yn gwbl groes i hawliau plentyn. Mae'r diffyg cydraddoldeb o ran diogelwch i blant o'u cymharu ag oedolion yn rhywbeth na ellir ei gyfiawnhau o gwbl.**

Rydym wedi ymrwymo o hyd i beri bod cosbau corfforol ar gyfer plant a phobl ifanc yn annerbyniol drwy hyrwyddo dulliau cadarnhaol yn eu lle.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n glir i rianta cadarnhaol. Rydym yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd sy'n darparu cymorth rhianta i deuluoedd.

Nid oes mandad gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu ar y mater hwn gan nad oedd yn rhan o faniffesto'r Llywodraeth ac nid yw wedi'i gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol. Byddai angen gwaith paratoi sylweddol i symud ymlaen ar y mater hwn, gan gynnwys gwerthusiad manwl ynghylch a yw'r mater o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn osgoi'r posibilrwydd o her gan y Twrnai Cyffredinol.

**<u>Plant sy'n dioddef effaith carchariad rhieni</u>**

**Nid oes data lefel Cymru ar gael ar nifer y plant yng Nghymru sy'n dioddef effaith carcharu rhiant. Fodd bynnag, mae tystiolaeth y DU yn awgrymu y bydd 7 y cant o'r boblogaeth ysgol yn profi carchariad rhiant ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ymchwil hefyd yn dweud wrthym fod plant sydd a charcharor yn y teulu yn debygol o brofi ystod o anawsterau emosiynol, yn fwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd meddwl, yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi, yn llai tebygol o fwynhau canlyniadau addysg da, ac mewn mwy o berygl o ddioddef canlyniadau gwael wrth heneiddio.**

**Mae'r Comisiynydd wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ac ymweliadau i ddysgu mwy am y gwaith cymorth i deuluoedd pwysig sy'n datblygu mewn carcharau yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau i'r plant. Hoffai o weld y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod y plant hyn, y mae eu hanghenion yn aml yn parhau'n anweledig i'r gwasanaethau prif ffrwd, yn gallu gwireddu eu hawliau heb gamwahaniaethu yn eu herbyn, yn unol ag Erthygl 2 o CCUHP. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu mesurau a fydd yn sicrhau bod eu rhaglenni blaenllaw megis Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf**

**- yn ymgysylltu'n rhagweithiol â theuluoedd y mae carcharu rhiant wedi effeithio arnynt.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cynorthwyo plant sy'n profi effeithiau o ganlyniad i garcharu rhiant. Byddwn yn ystyried ymhellach sut y gallwn gynorthwyo'r plant hyn orau drwy ein rhaglenni presennol.

## NOD 2: MYNEDIAD AT GYFLEOEDD ADDYSG, HYFFODDIANT A DYSGU

**Llesiant dysgwyr**

**Cyhoeddwyd tystiolaeth a gyflwynwyd gan Estyn yng nghyswllt effeithiolrwydd ysgolion wrth drechu tlodi ac anfantais yn 2012, ac mae'n cyflwyno achos cryf dros bwysigrwydd cynnal llesiant disgyblion er mwyn sicrhau cyrhaeddiad. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod yr ysgolion sy'n effeithiol o dan amgylchiadau heriol yn ymagweddu fel ysgol gyfan, ac yn meddu ar systemau cydlynus, strwythuredig i godi cyflawniad. Seiliwyd y dull hwn ar ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng llesiant disgyblion a safonau. O ganlyniad, mae ffocws ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, a chynnal anghenion cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr. Mae ysgolion effeithiol hefyd yn rhoi pwyslais ar wrando ar ddysgwyr a rhoi cyfleoedd iddynt gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Nododd Estyn hefyd fod ysgolion effeithiol yn ymgysylltu a dysgwyr mewn cyfoeth o weithgareddau allgyrsiol, ac yn ymgysylltu'n dda a rhieni a gofalwyr i'w helpu nhw a'u plant i oresgyn rhwystrau i ddysgu.**

**Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i unrhyw newidiadau a gyflwynir yn dilyn yr adolygiad sicrhau bod strwythurau a systemau cryf yn eu lle i gynnal diogelu a hybu llesiant y dysgwyr, yn unol a thystiolaeth Estyn ynghylch arfer effeithiol gyda dysgwyr sydd o dan anfantais. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod diwygiadau i'r system addysg yng Nghymru yn cynnwys ffocws clir ar lesiant dysgwyr a'u diogelu.**

Codi lefelau llythrennedd a rhifedd ym mhob ystod oedran a gallu, a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol yw prif flaenoriaethau'r Gweinidog. Mae hyn yn hanfodol i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc a'r unig ffordd o gyflawni hyn yw creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i'n plant a phobl ifanc.

Mae lles dysgwyr a threfniadau effeithiol i ddiogelu pob plentyn a pherson ifanc yn rhan annatod o'n system addysg. Cyn hir bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar Ddiogelu Plant mewn Addysg, sy'n disgrifio'r seilwaith a'r trefniadau sydd eu hangen i sicrhau bod y sgiliau, hyfforddiant a gwybodaeth angenrheidiol gan bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth addysg i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed.

Mae awdurdodau lleol wedi cadarnhau mai addysg yw eu blaenoriaeth bennaf ac maent wedi cytuno i fabwysiadu dull rhanbarthol o ddarparu nifer o wasanaethau gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o adolygiadau Hill, Estyn ac ISOS yn cadarnhau bod pob consortiwm ar gam gwahanol yn ei ddatblygiad. Cafwyd cynnydd araf mewn rhai ardaloedd ac mae diffyg cysondeb a rhywfaint o ddyblygu yn y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi croesawu'r dystiolaeth a'r opsiynau yn Adroddiad Hill ac wedi symud ymlaen yn gyflym ar y rheini sy'n cyfrannu at wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth. Mae rhai o'r rhain yn cael eu cyflawni eisoes drwy ein Cynllun Gwella Ysgolion cenedlaethol.

Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar 7 Hydref sy'n nodi ei fod yn derbyn cynnig diwygiedig gan lywodraeth leol i ddiogelu cyllid ar gyfer gwella ysgolion yn setliad cyllideb llywodraeth leol ac i gydlunio Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.

Cytunwyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar egwyddor y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion ac mae wedi'i gymeradwyo gan lywodraeth leol. Bydd y gwaith o gydlunio'r model cenedlaethol gan gynnwys amrywiaeth o arbenigwyr addysg yn helpu i sicrhau dull

cliriach a mwy cyson o weithredu yn rhanbarthau'r pedwar consortiwm. Bydd y cytundeb partneriaeth newydd hwn yn cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod perfformiad addysgol yn parhau i wella yn y dyfodol.

Bydd y dadansoddiad o ddata a threfniadau tracio disgyblion yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion er mwyn sicrhau dull mwy cyson a safonol. Bydd hyn yn galluogi'r consortia i fonitro a phennu'r cymorth sydd ei angen i alluogi pob dysgwr i gyflawni'r canlyniadau gwell ar gyfer disgyblion.

Mae'r consortia mewn lle da i adnabod a rhannu arferion da, nid yn unig mewn ysgolion o fewn y consortiwm ond hefyd mewn ysgolion ledled Cymru. O ganlyniad i hyn, gall ysgolion ac awdurdodau lleol wneud defnydd o ddewis ehangach o arferion da wedi'u seilio ar dystiolaeth a'u rhannu drwy gydweithredu, yng nghyswllt dysgu ac addysgu.

**Cyfranogiad mewn lleoliadau addysg**

**Mae'r Comisiynydd yn credu y gall cymryd rhan mewn lleoliadau addysg yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr agenda gwella ysgolion. Mae hefyd yn arwydd ei siom fod tystiolaeth gan arolwg Llywodraeth Cymru 2011 ar ymgysylltu disgyblion yn awgrymu bod plant a phobl ifanc yn dal i adrodd nad oeddent yn cael eu gwrando arnynt mewn ffordd ystyrlon. Cyhoeddodd Estyn eu hadroddiad ar 'Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael a thlodi ac anfantais mewn ysgolion' yn 2012. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir bod yr ysgolion llwyddiannus sy'n wynebu amgylchiadau heriol wedi canfod bod mentrau i ddatblygu ymgysylltiad dysgwyr a'r penderfyniadau a wneir ganddynt yn yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar uchelgais y dysgwyr, eu safonau, eu presenoldeb a'u hymddygiad. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi diweddaru ac ail-lansio gwefan Llais Disgyblion Cymru y llynedd. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru ac Estyn i symud ymlaen mewn ymateb i'm galwadau yn y gorffennol ynghylch yr angen am adolygiad thematig o safonau cyfranogiad ac ymarfer mewn ysgolion yng Nghymru.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r agenda ar Gyfranogiad Disgyblion ac yn parhau i gynnal a monitro gwefan Llais Disgyblion Cymru, ac mae wedi creu cysylltiadau â Ysgolion Parchu Hawliau sy'n hyrwyddo hawliau plant mewn ysgolion.

Mae adroddiad blynyddol Estyn 2011-12 yn dangos, yn achos yr ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu, fod cynghorau ysgol yn cydweithio'n dda â chymunedau lleol ar weithgareddau yn y gymuned gan gynnwys codi arian at elusennau lleol a gwella diogelwch a glanweithdra yn yr ardal o gwmpas yr ysgol, ac mewn nifer bach o ysgolion mae disgyblion yn chwarae rhan drwy fonitro cynnydd ar gyrraedd targedau a gytunwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol a gwerthuso cynnydd eu cyd-ddisgyblion. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd, mae disgyblion yn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch agweddau ar amgylchedd yr ysgol, bwyta'n iach a pholisïau gwrth-fwlio ac, mewn rhai ysgolion, mae llais cryfach gan ddisgyblion ynghylch beth y maent yn ei ddysgu a'u ffordd o ddysgu drwy grwpiau ffocws, arolygon ac arsylwi ar wersi. Yn yr holl ysgolion arbennig a gynhelir a oedd wedi'u harolygu, mae disgyblion ar y cyngor ysgol yn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch bywyd ysgol gan gynnwys hylendid a maeth yng nghaffi'r ysgol, a recriwtio staff.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal adolygiad thematig o gyfranogiad disgyblion. Fodd bynnag, ar ôl cynnal trafodaethau cychwynnol ag Estyn yn gynharach yn 2013, penderfynwyd na fyddai adolygiad thematig o'r mater hwn yn briodol ar hyn o bryd. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gallu monitro'r sefyllfa wrth i Estyn barhau â'i waith o ystyried ac adrodd ar safonau cyfranogiad disgyblion drwy ei arolygiadau o ysgolion ac mae'n cyfeirio at y gwaith hwn yn ei adroddiad blynyddol.

**Diogelu ym myd addysg**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r pryderon a gododd y Comisiynydd ynghylch y meini prawf ar gyfer atgyfeirio pryderon amddiffyn plant, drwy gyhoeddi, yn gynharach eleni, ganllawiau diwygiedig ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo ar gyfer staff ysgolion. Ymddengys bod y canllawiau diwygiedig yn darparu cyngor cliriach a mwy cadarn i gyrff llywodraethu ysgolion. Fodd bynnag, mae'n rhaid i benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion dderbyn yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r gweithdrefnau newydd fel y bwriadwyd. Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru hefyd yn adnewyddu'r canllawiau diogelu ym myd addysg ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu, a gyflwynwyd yn 2007. Mae'r Comisiynydd yn gobeithio bod y newidiadau a wnaed i'r canllawiau yn adlewyrchu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP, ac o ganlyniad yn cynnwys cyfarwyddyd clir ar egwyddor lles pennaf (Erthygl 3), yn ffocws i arfer diogelu mewn lleoliadau addysg. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n fanwl weithrediad y canllawiau newydd ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo i staff ysgolion.**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymhwyso'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP wrth adnewyddu'r canllawiau diogelu ym myd addysg i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu, er mwyn gwneud egwyddor lles pennaf yn fwy effeithiol (Erthygl 3).**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar weithdrefnau disgyblu staff ar gyfer awdurdodau lleol yn Ionawr 2013. Datblygwyd y canllawiau drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraethwyr Cymru, swyddogion cymorth i lywodraethwyr mewn awdurdodau lleol, cynrychiolwyr adrannau adnoddau dynol, swyddfa'r Comisiynydd Plant, undebau staff ysgolion ac awdurdodau esgobaethol gan fanteisio ar eu profiad a'u harbenigedd. Mae'r canllawiau cynhwysfawr hyn yn cynnig cyngor ar bob agwedd ar y weithdrefn disgyblu staff, ac maent yn cynnwys polisi enghreifftiol. Os bydd ysgolion yn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol, bydd yn sicrhau proses disgyblu staff unffurf.

Mae'r canllawiau hyn yn statudol felly rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt neu fod â chyfiawnhad cadarn dros beidio â gwneud hynny. Er mwyn monitro cynnydd ar ddechrau Hydref 2013 ysgrifennodd Llywodraeth Cymru i'r holl awdurdodau lleol i gael gwybod a ydynt wedi rhaeadru'r ddogfen i gynrychiolwyr lleol yr undebau ysgolion ac i lywodraethwyr ysgol i'w mabwysiadu ac i ofyn iddynt roi gwybod i swyddogion Llywodraeth Cymru am unrhyw bryderon sydd ganddynt am y canllawiau.

Cawsom ymatebion cadarnhaol ar y cyfan gan awdurdodau lleol ynghylch y canllawiau a'r polisi enghreifftiol a byddwn yn dadansoddi'r rhain yn ystod y misoedd nesaf. Bydd angen ymgynghori ar unrhyw newidiadau mewn gweithdrefnau disgyblu staff ysgol â chynrychiolwyr lleol yr undebau staff ysgolion. Bydd hyn yn cymryd amser ond, yn gyffredinol, gan mai'r rhain yw'r canllawiau statudol cyntaf a gyhoeddwyd ar faterion disgyblu, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol i annog ysgolion i fabwysiadu'r polisi enghreifftiol oherwydd bydd hyn yn golygu bod materion disgyblu'n cael eu trafod mewn ffordd gyson ledled Cymru.

Daeth yr ymgynghoriad ar y drafft diwygiedig o'r Canllawiau ar Ddiogelu Plant mewn Addysg i ben ar 25 Hydref. Mae swyddogion yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd. Yn ystod y broses hon, bydd swyddogion yn ystyried a oes angen cryfhau neu ddiwygio rhannau o'r Canllawiau, a byddant yn asesu'r angen am gyhoeddi canllawiau statudol ar wahân ar ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon ac aelodau staff.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd barn plant a phobl ifanc o ddifrif ac mae wedi sicrhau bod sylw dyladwy'n cael ei roi i CCUHP yn unol â *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*. Yng nghyswllt y canllawiau diwygiedig 'Diogelu Plant mewn Addysg',

cynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar hawliau plant. Mae'r asesiad effaith hwn yn nodi'r erthyglau yn CCUHP sy'n gymwys i'r diwygio ar y canllawiau Diogelu Plant mewn Addysg ac yn enwi'r erthyglau y mae'r canllawiau'n helpu i'w gwireddu neu eu gweithredu, gan gynnwys egwyddor y lles pennaf yn Erthygl 3.

Yn ogystal â'r asesiad llawn o'r effaith ar hawliau plant, paratowyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd. Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith y Canllawiau o safbwynt y cydraddoldebau ehangach yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys cwestiwn penodol sy'n gofyn am sylwadau ynghylch effeithiau posibl y canllawiau ar bobl yng Nghymru sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Cwynion addysg**

**Mae canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru wedi cael ei gyhoeddi ac yn cydnabod y diffyg difrifol sydd wedi bodoli o ran cydymffurfio â gweithdrefnau cwyno. Mae angen gwneud gwaith yn awr i sicrhau bod llywodraethwyr a phenaethiaid yn cael cymorth i ddeall gofynion y canllawiau newydd.**

**Mae'r Comisiynydd yn dal i bryderu, er bod y canllawiau cwynion yn cynghori cyrff llywodraethu i gytuno i ymchwiliad annibynnol, lle bo'r awdurdod lleol yn cynghori hynny, nad oes hawl gan ddisgyblion a rhieni sy'n gwneud cwyn yn erbyn darparwr addysg i droi at gorff ymchwilio annibynnol.**

**Yng Nghymru, mae gweithdrefn gwynion enghreifftiol newydd i Gymru gyfan wedi cael ei chyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno manteision y dull hwn o ran sicrhau cysondeb wrth drafod cwynion ar draws gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn gyntac ar y lefel briodol, a sicrhau bod y dull o'u datrys yn arwain at welliannau yng nghyflwyniad gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n ofalus weithrediad y canllawiau newydd ar gwynion ysgol.**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu mesurau a fydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth Addysg yn cyfateb i'r cynllun cwynion enghreifftiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.**

Mae Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff llywodraethu ysgolion yn delio â chwynion am eu hysgol ac yn hysbysebu'r trefniadau ar gyfer hynny. Er mwyn helpu ysgolion, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a gweithdrefn gwyno enghreifftiol yng Nghylchlythyr 011/2012 "Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru".

Mae'r canllawiau'n cynnwys cyngor ar amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chwynion fel yr hyn a ystyrir yn ymarfer da, rolau a chyfrifoldebau penaethiaid ysgol, llywodraethwyr ac eraill, a delio â chwynion di-enw. Nid yw'r canllawiau hyn yn statudol ond mae nifer o ysgolion wedi dewis mabwysiadu gweithdrefn enghreifftiol Llywodraeth Cymru. Mae cwynion ysgolion yn faterion lleol y mae cyrff llywodraethu ysgolion yn gyfrifol am eu datrys heb gymorth gan awdurdodau lleol.

Mae cyrff llywodraethu yn cynnwys gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i helpu eu hysgol. O dan gyfraith addysg mae hefyd yn ofynnol bod y 'gwirfodolwyr' hyn yn delio â chwynion am faterion ysgol. Felly mae'n bwysig bod y weithdrefn y mae llywodraethwyr yn ei defnyddio i ddelio â chwynion yn hawdd ei deall ac nad yw'n rhy gymhleth o safbwynt y llywodraethwyr a'r achwynwyr, a'i bod yn deg â phob parti ac yn rhoi cyfle i achwynwyr ddatgan eu hachos.

Rwyf yn deall awgrym y Comisiynydd am gysoni gweithdrefnau cwyno cyrff llywodraethwyr â'r weithdrefn a ddefnyddir gan gyrff gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan y byddai'n creu dull cyson ac unffurf o weithredu. Fodd bynnag, hyd yn oed pe byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chyngor a'i weithdrefn enghreifftiol bresennol, nid oes deddfwriaeth mewn grym i fynnu bod cyrff llywodraethu'n mabwysiadu'r broses yr ydym yn ei sefydlu. Byddai angen Bil i ddeddfu ar hyn a byddai hynny'n cymryd amser.

Felly bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro sut y mae ysgolion yn delio â chwynion ac, os byddwn yn teimlo bod angen newidiadau yn ein canllawiau a'n polisi enghreifftiol, gallwn gymryd y camau angenrheidiol.

**<u>Presenoldeb ac Ymddygiad</u>**

**Rheoli ymddygiad – Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb yn 2013, ac mae hefyd wedi lansio gwefan Dysgu Cymru i ddarparu gwybodaeth, canllawiau yng nghyswllt meysydd gwelliant, yn cynnwys ymddygiad a phresenoldeb.**

**Canfu arolwg Estyn o'r trefniadau mewn unedau cyfeirio disgyblion (2012) mai'r unedau a oedd wedi mabwysiadu strategaethau rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol cyfyngol a dulliau ataliaeth a achredwyd gan Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain oedd y rhai mwyaf effeithiol. Roedd hyn yn gysylltiedig a'r ffaith bod gan yr unedau staff a oedd wedi'u hyfforddi'n dda ac a oedd yn hyderus wrth ddefnyddio technegau i dawelu sefyllfaoedd a allai fod yn heriol.**

**Gwaharddiadau o'r ysgol – Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod y gostyngiad yn y gwaharddiadau parhaol o ysgolion yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi parhau. Rhyddhawyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn 2012, ac mae'n eglur na ddylid penderfynu gwahardd dysgwr ond lle bu achos difrifol o dorri polisi ymddygiad yr ysgol neu lle gallai ymddygiad disgybl niweidio'n ddifrifol allu eraill i ddysgu. Nid wyf yn eglur ynghylch pa brosesau sydd yn eu lle i gefnogi ymwybyddiaeth disgyblion a'u rhieni/gofalwyr a'u dealltwriaeth o bolisiau ymddygiad ysgolion. Rwy'n pryderu bod cyfradd mor uchel o waharddiadau cyfnod penodol am 'herio'r rheolau'. Mae tystiolaeth a gynhwyswyd yn yr astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar waharddiadau anghyfreithlon o'r ysgol (2011) yn destun pryder arbennig i mi.**

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol - Nododd Adroddiad NBAR (2008) faterion oedd yn ymwneud a chyfyngiadau mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol o ran cynnig addysg ddigonol i blant a phobl ifanc. Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar les mewn unedau cyfeirio disgyblion yn 2012 sy'n awgrymu bod cyfres o faterion o hyd y mae angen ymdrin a hwy mewn lleoliadau addysg amgen. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o arweiniad i ysgolion ar fanteision mabwysiadu dulliau ysgol gyfan ar sail tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, gan gefnogi eu hymgysylltiad a'u cyrhaeddiad addysgol.**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi arweiniad i leoliadau addysg ynghylch mabwysiadu strategaethau rheoli ymddygiad effeithiol, wedi'u hachredu, ymyriad corfforol cyfyngol a dulliau ataliaeth.**

**- yn bwriadu gwneud darn penodol o waith yn ystod y flwyddyn nesaf a fydd yn edrych yn fanwl ar les disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion yng ngoleuni'r pryderon a godwyd trwy adroddiad Estyn yn 2012.**

Yng nghyswllt presenoldeb ac ymddygiad rydym wedi datblygu

- y broses Ymarfer, Adolygu a Datblygu – system integredig sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cwrdd ag anghenion penodol sydd wedi'u nodi gan ysgolion ac ymarferwyr; cyllid Llywodraeth Cymru i helpu i wella ysgolion drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion, ynghyd â chanllawiau ar eu cyfer;
- Safonau Statws Athro Cymwysedig sy'n cynnwys gofynion penodol ynghylch rheoli ymddygiad;
- y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol newydd ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n cynnwys modiwl ar reoli ymddygiad. Yn achos yr Athrawon Newydd Gymhwyso na fyddant yn cymryd y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael eu hannog i sicrhau bod yr Athrawon Newydd Gymhwyso yn canolbwyntio ar reoli ymddygiad yn ystod eu cyfnod sefydlu statudol.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau ar Ymyriad diogel ac ffeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau (097/2013) ym Mawrth 2013. Mae'r canllawiau hyn yn trafod y defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol a dulliau atal, defnyddio ystafelloedd/mannau tawel neu ar wahân a'r arfer annerbyniol o arwahanu gorfodol. Maent hefyd yn cyfeirio at daflen wybodaeth The British Institute of Learning Disabilities (BILD) sy'n egluro'r gwahaniaeth rhwng 'amser i anadlu' ac 'arwahaniad'. http://www.bild.org.uk/information/factsheets

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu bwriad y Comisiynydd Plant i ymgymryd â'r gwaith hwn ac yn edrych ymlaen at weld ei ganfyddiadau gyda diddordeb. Bydd hyn yn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth bresennol ac yn cyfrannu at ddatblygu polisïau yn y dyfodol ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Mewn ymateb i'r diffygion a nodwyd yn Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro, cafodd Estyn ac AGGCC eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal cyfres o arolygiadau heb eu cyhoeddi ymlaen llaw mewn unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru. Yr amcan oedd canfod pa mor gyffredin oedd y diffygion hyn. Rydym yn cymryd nifer o gamau i wella unedau cyfeirio disgyblion, o ran y ffordd o'u rheoli yn anad dim – testun pryder a nodwyd yn adroddiad blynyddol Estyn, er bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau rhoi sylw i'r rheoli ar unedau cyfeirio disgyblion cyn i'r digwyddiadau yn sir Benfro ddod i'n sylw. Byddwn yn rhoi pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion ar sail statudol o fis Medi 2014, ac yn cyhoeddi canllawiau newydd ar eu cyfer. Byddwn hefyd yn gweithredu ar argymhellion yn Adroddiad Prifysgol Caeredin ar addysg heblaw yn yr ysgol, ac rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol sut y byddant yn gweithredu'r argymhellion ar eu cyfer nhw.

## Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW) 2012

**Daeth Rheoliadau newydd y Tribiwnlys i rym ym mis Mawrth 2012. Ddeuddeng mis yn ddiweddarach, cyhoeddodd TAAAC eu hadroddiad blynyddol am y cyfnod 2011-12. Mae'r Comisiynydd yn nodi eu bod wedi mynegi pryderon am nifer uchel (33%) yr apeliadau lle bu i'r Awdurdod Lleol gydsynio yn ystod y cyfnod adrodd, ac ymrwymiad Gweinidogion i weithredu ynghylch y mater hwn. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod TAAAC wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth i blant a rhieni ar y rheoliadau newydd. Mae hefyd DVD a gwefan i helpu gyda deall y canllawiau a'u rhoi ar waith. Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer hawl plant a phobl ifanc i wneud eu hapel anghenion addysgol arbennig eu hunain, i hawlio camwahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg. Mae Mesur Peilot Plant (Addysg (Cymru)) 2009 wedi bod ar waith mewn dwy ardal awdurdod lleol. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r datblygiad pwysig hwn ac yn gobeithio y bydd y peilot yn arwain at estyn y darpariaethau hyn ledled Cymru heb oedi diangen. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro gweithrediad y rheoliadau hyn yn fanwl.**

Ers iddynt ddod i rym yn 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi monitro gweithrediad Rheoliadau TAAAC 2012 ochr yn ochr â threialu hawliau'r plentyn i apelio a chyflwyno hawliadau i TAAAC.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o'r cynlluniau treialu ac, yn unol â hynny, bydd y contractwr yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn ac yn cymryd unrhyw gamau y credwn eu bod yn angenrheidiol. Byddwn yn monitro hyn hefyd drwy adroddiad blynyddol TAAAC a thrwy drafodaethau rheolaidd â TAAAC a grwpiau'r trydydd sector sy'n cynorthwyo rhieni a phobl ifanc sy'n dymuno defnyddio gwasanaeth y triwbiwnlys.

**Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig**

**Mae'r Comisiynydd yn deall bod y Gweinidog wedi penderfynu caniatau amser ychwanegol i fireinio manylion gweithredu'r cynigion o fframwaith cyfreithiol i AAA cyn i gynigion deddfwriaethol gael eu cyflwyno yn y tymor Cynulliad hwn.**

**Grwpiau a gynhwyswyd yn y canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (2006) yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau i ymgysylltu a chyflawniad addysgol na'u cyfoedion, ac mae tystiolaeth nad yw pethau'n gwella'n ddigon cyflym yn dal i ddod i'm sylw. Ymddengys y gallai'r dull a geir yn y cynnig diwygio olygu symud ymlaen wrth ymdrin a'r materion hyn.**

**Mae rhai pryderon gan y Comisiynydd o hyd ynghylch sut bydd y termau angen ychwanegol, angen sylweddol ac angen difrifol a/neu gymhleth, a'r hawliau sy'n dod yn eu sgil, yn cael eu cyplysu a phlant a phobl ifanc unigol. Bydd y Comisiynydd yn cefnogi'r cynnig i ddatblygu Meini Prawf Cymhwyster Cenedlaethol, er mwyn tywys cymhwysiad cyson wrth asesu angen ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn gobeithio y byddai unrhyw ganllawiau o'r fath yn darparu'r hyblygrwydd sy'n ofynnol i ddarparu dull sy'n wirioneddol yn canolbwyntio ar y plentyn, ac sydd wedi'i seilio ar anghenion unigol, newidiol.**

**Ymddengys y gallai'r cynigion i gyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol i blant a phobl ifanc wella profiad plant a'u teuluoedd, ac y gallai arwain at broses sy'n llawer mwy hwylus i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y cynigion asesu a chynllunio a amlinellir yma yn cydweddu a chynigion a datblygiadau gwasanaeth eraill a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, megis y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.**

**Mae'r Comisiynydd wedi gofyn am eglurhad ar y trefniadau i drosglwyddo cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda dyletswyddau newydd cysylltiedig a lleoliadau arbenigol ol-16. Yn benodol, fe hoffwn o gael sicrwydd y bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cyllid ar gael i alluogi'r bobl ifanc hyn i wireddu eu potensial. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y diwygiadau a gynigiwyd yn sicrhau ymatebion plentyn-ganolog i anghenion dysgu plant a phobl ifanc unigol.**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd gan y Côd Ymarfer a gyflwynir fel rhan o'r diwygiadau statws cyfreithiol digonol i alw deiliaid dyletswydd i gyfrif.**

Mae Bil Addysg (Cymru) yn cynnwys darpariaeth i roi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer asesu pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu ac i sicrhau darpariaeth o addysg bellach arbenigol os oes angen i gwrdd â'r anghenion addysg a hyfforddiant sydd wedi'u hasesu. Bydd y cynigion hyn yn dileu'r gwahanu presennol rhwng y cyfrifoldeb dros asesu a sicrhau darpariaeth arbenigol o 16 oed ymlaen ar gyfer dysgwyr sydd ag

anawsterau a/neu anableddau dysgu. Bydd hyn yn creu mwy o ddilyniant rhwng addysg a hyfforddiant cyn-16 ac ôl-16 ac yn hyrwyddo gwell cynllunio ar gyfer pontio gan fod y rheini sydd eisoes yn gyfarwydd â'r dysgwyr a'u hanghenion yn gallu helpu i asesu anghenion a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w diwallu.

Mae'r Bil hefyd yn cynnig cyflwyno hawl newydd i apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (TAAAC) a fydd yn creu mwy o gysondeb rhwng hawliau dysgwyr rhwng 16 a 25 oed a hawliau dysgwyr ifanc ac yn dileu'r diffyg cydraddoldeb presennol ar gyfer rhai dysgwyr yn ôl y lle y maent yn derbyn eu haddysg.

Y swm a wariwyd gan Lywodraeth Cymru ar gymorth i ddarparu lleoliadau arbenigol i ddysgwyr ôl-16 yn 2011/12 oedd £9 miliwn. Ar sail ein hamcangyfrifon, gan ystyried y patrymau gwariant hanesyddol a'r cyfle i awdurdodau lleol a cholegau Addysg Bellach lleol i ymchwilio ar y cyd i'r posibilrwydd o ddiwallu anghenion rhai o'r dysgwyr hyn mewn coleg addysg bellach lleol, rhagwelir y bydd y gyllideb bresennol yn ddigonol.

Bydd y cwantwm a'r fformiwla ar gyfer dosbarthu'r grant cynnal refeniw yn cael eu hystyried gan yr Is-grŵp Dosbarthu sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, ac aelodau annibynnol. Mae'r Is-grŵp Dosbarthu yn ymwybodol o'r bwriad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn a bydd trafodaethau manwl yn dechrau yn Ionawr 2014.

Rhan ganolog o'r achos o blaid diwygio'r fframwaith presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig yw ein penderfyniad i greu system yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r person ifanc. Hon yw'r egwyddor sylfaenol ar gyfer ein holl gynigion ar gyfer diwygio, gan gynnwys y dulliau o asesu, cynllunio, darparu gwasanaethau, sicrhau ansawdd a delio â phryderon. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob diwygiad o'r fath yn cyfrannu at greu gwasanaeth hyblyg a phlentyn-ganolog sy'n ymateb i anghenion penodol a chyfnewidiol. Mae'r prosiectau peilot wedi datblygu proses Cynllun Datblygu Unigol (CDU) i bennu anghenion dysgu plant a phobl ifanc ac rydym yn bwriadu adeiladu ar sail profiad dysgwyr, rhieni ac athrawon sydd wedi defnyddio'r CDU. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, i sicrhau lle canolog i'w lleisiau, eu hanghenion a'u profiadau yn y gwaith o ffurfio a mireinio ein polisi a'n diwygiadau i ddeddfwriaeth. Rydym am wella eu profiadau drwy ddull integredig, amlasiantaethol a byddwn yn parhau i weithio ar draws llywodraeth i sicrhau bod y diwygiadau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyson â newidiadau arfaethedig o dan Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a datblygiadau eraill mewn polisi cenedlaethol.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi Cod Ymarfer statudol diwygiedig mewn cysylltiad â'r fframwaith newydd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig a fydd yn adlewyrchu'r dull sy'n dilyn anghenion sydd wrth wraidd y diwygiadau.

**<u>Mynediad i leoliadau ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl</u>**

**Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cynllunio hygyrchedd ysgolion i ddisgyblion anabl. Mae hefyd yn ofynnol i ysgolion unigol feddu ar gynllun hygyrchedd, sy'n nodi sut maent yn bwriadu gwella mynediad i ddisgyblion anabl. Fodd bynnag, daeth tystiolaeth i sylw y Comisiynydd y llynedd sy'n awgrymu bod rhai awdurdodau lleol yn dal heb gynlluniau penodol. Mae'n destun pryder i'r Comisiynydd fod achosion yn dal i ddod i sylw y Comisiynydd lle na all plant anabl fynd i'w dewis ysgol gyda'u cyfoedion oherwydd nad oes addasiadau rhesymol wedi'u gwneud. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn bwriadu gwneud darn penodol o waith yn ystod y flwyddyn sy'n dod a fydd yn edrych yn fanwl ar faterion hygyrchedd yng nghyswllt addysg plant anabl.**

Mae pob un o bolisïau addysg Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i gynwysoldeb a hawliau plant a byddwn yn dosbarthu ein polisïau i'r holl ysgolion yn unol â hynny.

Mae Deddf Addysg 1996 yn rhoi i awdurdodau lleol y ddyletswydd gyfreithiol dros bennu, asesu a darparu addysg addas i bob disgybl, gan gynnwys y plant hynny sy'n anabl neu sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Felly mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth addysgol briodol ar gael i bob dysgwr. Mae hefyd yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn dal sylw ar y Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd neu a all fod ag AAA.

Mae'r cwricwlwm ysgol yn hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau, ym mhob pwnc a gweithgarwch. Er enghraifft, yn y Rhaglen Astudio ar gyfer pob pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, nodir gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau, sef bod ysgolion yn gwella mynediad at y cwricwlwm; yn gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad; ac yn darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Yn ogystal â hyn, mae'r rhaglenni astudio yn nodi'r gofynion ar gyfer hawliau dysgwyr, sef bod ysgolion yn sicrhau bod pob dysgwr wedi'i gynnwys yn aelod llawn o gymuned ei ysgol, yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol a gweithio ochr yn ochr â'i gyd-ddisgyblion lle bynnag y bo modd.

Mae Gweinidogion yn croesawu bwriad y Comisiynydd Plant i edrych ar faterion sy'n ymwneud â hygyrchedd mewn cysylltiad ag addysg plant anabl. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu system addysg gynhwysol ar gyfer pob dysgwr ac mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol yng nghymdeithas heddiw i sicrhau bod y genhedlaeth hon a'r nesaf yn mabwysiadu ffordd gynhwysol o feddwl.

**Addysg Sipsiwn a Theithwyr**

**Mae diweddariad Estyn 2011 ar ddarpariaeth addysg disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr mewn ysgolion uwchradd yn canfod bod cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n Sipsi Deithwyr a'u lefelau cyrhaeddiad yn parhau yn rhy isel. Roedd yn bryder penodol fod Estyn wedi canfod bod gan rhy ychydig o ysgolion bolisïau neu arferion sy'n mynd i'r afael yn benodol ag anghenion disgyblion Sipsiwn a Theithwyr, ac ychydig yn cynnig cwricwlwm sy'n mynd ati i hyrwyddo diwylliant Sipsiwn a Theithwyr.**

**Mae'r Comisiynydd yn ymgysylltu a Fforwm Ieuenctid Cenedlaethol Sipsiwn a Theithwyr yn awgrymu i'r Comisiynydd bod llawer o waith i'w wneud o hyd i ymdrin a'r materion a nodwyd gan Estyn. Nid yw plant Sipsiwn a Theithwyr yn cael y cyfleoedd addysgol y dylid eu rhoi iddynt er mwyn iddynt wireddu'r hawliau hyn.**

**Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i ganfyddiadau adroddiad Estyn yn 2011, ac wedi cyflwyno nifer o gamau gweithredu a fwriadwyd i ymdrin a'r materion a nodwyd ynghylch yr addysg a gynigir i blant Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Comisiynydd:**

**-yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n fanwl effaith y camau gweithredu a gymerwyd i ymdrin ag argymhellion adroddiad Estyn ar ymarfer cyfrifoldebau darparwyr Addysg yng nghyswllt ymgysylltu â phlant Sipsiwn a Theithwyr yn unol â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.**

Rydym yn cydnabod bod llawer o blant Sipsiwn a Theithwyr yn bell ar ôl eu cyfoedion wrth ddechrau mewn addysg yng Nghymru. Dyma pam y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi darparu'r Grant ar gyfer Addysg Benodol i Blant Sipsiwn a Phlant Teithwyr yng Nghymru. Mae Gwasanaethau Addysg Teithwyr yr awdurdodau lleol wedi sefydlu gwasanaethau hanfodol i hyrwyddo addysg plant Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardaloedd drwy gymryd amser i feithrin cysylltiadau a datblygu ymddiriedaeth y cymunedau dan sylw. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Gwasanaethau Addysg Teithwyr a phartneriaid eraill i wneud cynnydd pellach er mwyn gwella presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol y dysgwyr hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo addysg plant Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru – yn yr un modd â phob plentyn, mae gennym ddyheadau mawr ar gyfer addysg y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, derbynnir bod plant Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu rhwystrau diwylliannol rhag dysgu ac, felly, fod angen i'r camau gweithredu yn y maes hwn fod yn gydnaws â'r cymunedau ehangach dan sylw, fel y gellir parhau â chyflawniadau a gwneud cynnydd parhaus.

## NOD 3: MWYNHAU'R IECHYD CORFFOROL, MEDDYLIOL, CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL GORAU POSIB

### Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y strategaeth genedlaethol gynhwysol o ran oed 'Law yn llaw at Iechyd Meddwl' ym mis Hydref 2012. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cynnwys plant yn y strategaeth a chamau gweithredu penodol yn y cynllun cyflawni fel datblygiad sy'n gwneud Erthygl 24 o CCUHP (hawl plant i dderbyn gofal iechyd ansawdd da) yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, byddair Comisiynydd yn dadlau y gallai colli strategaeth genedlaethol benodol ar wahan ar gyfer plant a phobl ifanc a'i disodli a strategaeth i bob oed o bosib wanhau'r sylw a roddir i fwriadau CCUHP.**

**Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod y strategaeth yn cynnwys y 7 Nod Craidd I blant a phobl ifanc yng Nghymru o dan CCUHP yn ei dull o weithredu. Fodd bynnag, mae'r Comisinydd yn dal heb ei argyhoeddi y gall hyn ddarparu cyfeiriad cryfach yng nghyswllt dull seiliedig ar hawliau o ymdrin a gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc nag a fyddai'n cael ei ddarparu mewn strategaeth benodol ar wahan.**

**Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol bod Grŵp Sicrwydd Cyflenwi Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i symud yr agenda hon yn ei blaen, o ran ei pherthnasedd i blant a phobl ifanc. Mae'r Comisiynydd yn gobeithio y bydd y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl newydd Cenedlaethol yn parhau a'r gwaith hwn ac yn cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc mewn modd cadarn. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro a thystio i ba raddau y gellir dweud bod gweithredu strategaeth i bob oed yn gwneud CCUHP yn fwy effeithiol, ac yn ymdrin ag anghenion unigryw plant a phobl ifanc. Rwy'n bwriadu gwneud darn penodol o waith gyda phlant a phobl ifanc i ddarganfod beth maen nhw eisiau ei gael gan wasanaethau a pha ffyrdd o weithio maen nhw'n teimlo sy'n cefnogi eu lles emosiynol a meddyliol orau.**

Un o'n rhesymau dros ddatblygu 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' oedd sefydlu gwelliannau mewn gwasanaethau plant a chwalu rhwystrau ffug rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ac Iechyd Meddwl Oedolion. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn meithrin mwy o weithio mewn partneriaeth er lles yr unigolyn.

Mae 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn cydnabod ei bod yn bwysig darganfod anhwylderau ac ymyrryd yn gynnar, a bod sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer plant yn gallu helpu i leddfu problemau seicolegol mwy difrifol a all ddatblygu pan fyddant yn hŷn .

Ers cyhoeddi 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn 2012, rydym wedi ceisio gwella'r ddarpariaeth o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd ac eraill drwy'r canlynol:

- Cyhoeddi cyngor manwl ar gynllunio gwasanaethau sydd wedi'i ddatblygu gan grŵp cyfeirio arbenigol o ymarferwyr;
- Darparu buddsoddiad ychwanegol o £250,000 bob blwyddyn i wella gwasanaethau penodol ar gyfer Anhwylderau Bwyta, sy'n rhan sylweddol o lwyth achosion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, a galluogi mwy o bobl ifanc sydd â nifer o gyflyrau cymhleth i gael eu trin yng Nghymru, fel bod llai o leoliadau drud y tu allan i'r ardal.
- Cydweithio â'r Gwasanaeth i ailddylunio'r ddarpariaeth, gan sicrhau cydweithio agosach rhwng gwasanaethau cymunedol a thrydyddol: bydd y gwaith hwn yn cael ei hyrwyddo drwy ddatblygu Rhwydwaith Cynllunio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Cymru Gyfan.

Er mwyn sicrhau bod y flaenoriaeth i wasanaethau plant yn parhau, galwyd y cyfarfod cyntaf o'r Grŵp Sicrwydd Darparu ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ym mis Mehefin. Mae'r grŵp amlasiantaethol hwn yn gyfrifol am graffu ar y ddarpariaeth a dal dan sylw yr ymrwymiadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn y Strategaeth.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol amlasiantaethol, sydd â'r dasg o oruchwylio gweithrediad y Strategaeth, yn llunio ei adroddiad blynyddol cyntaf ar hyn o bryd: bydd yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i gyhoeddi maes o law.

Mae Gweinidogion Cymru yn croesawu bwriad y Comisiynydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc i gael gwybod beth y maent am ei gael gan wasanaethau a'r ffordd orau i hyrwyddo eu lles emosiynol a meddyliol. Bydd hyn yn ategu ein gwaith ni i ymgysylltu â phobl ifanc: roedd pobl ifanc wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth. Rydym hefyd yn ystyried beth fydd y ffordd orau o barhau i'w cynnwys wrth roi'r Strategaeth ar waith.

---

**Cwnsela yn yr ysgol**

**Mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn darparu ar gyfer datblygiad pellach a chynaliadwyedd cwnsela yn yr ysgol. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil ym mis Mehefin 2012 croesawodd y Comisiynydd y cynigion i wneud cwnsela yn yr ysgol yn statudol fel un o'r mesurau diogelu wrth drosglwyddo cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw.**

**Daeth y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gyfraith ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod rhaid i awdurdod lleol sicrhau darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth sy'n cwnsela ynghylch anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol i ddisgyblion uwchradd, i eraill yn ardaloedd yr awdurdod sydd rhwng 11 ac 19 oed, ac i ddisgyblion yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi cyfle i Weinidogion lunio rheoliadau ar ofynion pellach o ran y ddarpariaeth.**

**Rwy'n croesawu'n fawr yr estyniad i'r hawl pwysig hwn. Fodd bynnag, mae'n dal yn aneglur i'r Comisiynydd beth yw bwriad y term 'darpariaeth resymol' a sut bydd y bwriad polisi ymddangosiadol i estyn hawl yn cael ei ddehongli a'i weithredu. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n fanwl weithrediad darpariaethau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 fel y maen nhw'n berthnasol i gwnsela yn yr ysgol o ran yr union fynediad at gwnsela i ddiwallu anghenion lles emosiynol plant a phobl ifanc.**

O dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn casglu data am blant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn darparu'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru, yn unol â Chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru. Rhoddwyd Cyfarwyddyd ym mis Gorffennaf 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyflwyno data ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2013 ac Awst 2013 erbyn 31 Hydref 2013, ac yn flynyddol ar ôl hynny.

Mae'r Cyfarwyddyd yn rhestru'r data sydd i'w casglu a'u darparu. Mae'r data yn cynnwys gwybodaeth am gefndir ethnig plant a phobl ifanc, eu cyfeiriadedd rhywiol, grŵp blwyddyn, a ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, a oes ganddynt anghenion addysgol arbennig a/neu anableddau, ble y maent yn cael eu haddysg (er enghraifft, ysgol prif ffrwd, uned cyfeirio disgyblion, ysgol arbennig, addysg ddewisol gartref), dewis iaith a chrefydd neu gred. Bydd y data hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro gwasanaethau cwnsela i weld pa grwpiau sy'n eu derbyn.

**Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

**Cyhoeddwyd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ym mis Ionawr eleni. Mae'r Comisiynydd yn pryderu ynghylch darpariaeth sy'n cyfuno dyletswyddau a swyddogaethau yng nghyswllt llesiant pobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt mewn un Ddeddf, p'un a ydynt yn blant neu'n oedolion.**

**Nid oes testun cefnogol i esbonio sut bydd y newid arfaethedig i un Ddeddf ar draws y ddarpariaeth plant ac oedolion, a disodli neu ailgyflwyno elfennau o ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud a phlant, yn hyrwyddo lles pennaf y plentyn, gan gydymffurfio ag Erthygl 3 o CCUHP.**

**Mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu hawl rhiant i wrthod caniatad i gynnal asesiad plant mewn angen fel y nodwyd yn Neddf Plant 1989. Fodd bynnag, mae'r Bil nid yn unig yn darparu nad yw dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal asesiad yn berthnasol os bydd unrhyw un a chyfrifoldeb rhiant am blentyn o dan 16 oed yn gwrthod asesiad, mae hefyd yn cyflwyno darpariaeth sy'n golygu nad oes rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol i gynnal asesiad os bydd y plentyn yn gwrthod, oni bai bod y plentyn mewn perygl o gael ei esgeuluso neu ei niweidio. Er bod Erthygl 12 o CCUHP yn darparu bod hawl gan blentyn sy'n alluog i benderfynu drosto/drosti ei hun i fynegi'r farn honno'n rhydd ym mhob mater sy'n effeithio arno/arni, dylai'r hawl hon i gael eu clywed gynnal yn hytrach na thanseilio cymhwysiad Erthygl 3 (lles pennaf) ac Erthygl 19 (Amddiffyniad) o CCUHP. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf cymhwyster ac ystyriaeth o ran yr hyn sydd i'w wneud i ddiwallu anghenion yn cael eu nodi'n benodol ar wyneb y Bil, fel y maent yn Neddf Plant 1989.**

**Un o fwriadau allweddol y Bil fel y'i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yw rhoi i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth 'lais cryfach a rheolaeth wirioneddol'. Mae eiriolaeth yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o alluogi plant a phobl ifanc i'w diogelu eu hunain trwy ymarfer eu hawliau, fel y'u hamlinellir yn CCUHP ac yn benodol yng nghyswllt cael clywed eu lleisiau yn unol ag Erthygl 12. Mae Adran 159 o'r Bil yn dyblygu'r ddarpariaeth yn adran 26A o Ddeddf Plant 1989 yng nghyswllt cymorth i bobl sy'n cyflwyno sylwadau, ond nid yw'n cyfeirio'n benodol at wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol. Mae'r bwlch hwn yn destun pryder mawr i'r Comisiynydd a hefyd nid yw'r Bil yn cynnwys fawr ddim darpariaeth i awgrymu y bydd plant yn cael llais cryfach a rheolaeth wirioneddol. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth iawn i'r pryderon a gododd wrth graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dylai Llywodraeth Cymru ymdrin â'r materion rwyf wedi eu codi yng nghyswllt yr angen am gymhwyso dyletswydd y Gweinidog i roi sylw dyledus i CCUHP mewn modd cadarnach.**

Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r is-ddeddfwriaeth a chanllawiau a fydd yn deillio ohono yn mynegi awydd i fabwysiadu model sy'n ceisio cynorthwyo pobl o bob oed; fel unigolion, fel aelodau o deuluoedd ac mewn cymunedau.

Mae'r Bil hwn wedi'i seilio ar bobl i raddau helaeth – eu hanghenion a'r canlyniadau y maent wedi'u nodi – yn hytrach na bod wedi'i seilio ar oedran, anabledd, lleoliadau neu fathau o wasanaeth. Ei fwriad yw hwyluso dull unedig o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion. I'r graddau y mae hynny'n bosibl ac yn ddiogel, bydd y Bil yn cysoni trefniadau fel bod set gyffredin o brosesau ar gyfer plant, oedolion a gofalwyr – hynny yw, ar gyfer pobl.

Y 'Model ar gyfer Pobl' yw'r enw a roddwyd ar hyn bellach ac mae'n gysyniad sy'n rhan o bopeth yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r Bil hwn.

Un o'r ffyrdd o'i fynegi yw'r dyletswyddau llesiant cyffredinol yn Adran 4: 'Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon geisio hyrwyddo llesiant ... pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth.' Bydd yr is-ddeddfwriaeth a chanllawiau a fydd yn deillio o'r Bil yn cael eu datblygu gan roi lle canolog i hyrwyddo llesiant.

Yng nghyd-destun y 'Model ar gyfer Pobl', credwn y bydd tair elfen y fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda'i gilydd:

- yn dileu anghysonderau sy'n golygu y gellir trin pobl yn wahanol oherwydd rhaniadau wedi'u seilio ar oed;
- yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn fwy teg a chyson, gan ymestyn hawliau plant a phobl ifanc i gael eu trin fel unigolion; er enghraifft, o ran eu hawl i gael eu clywed a chael llais mewn materion sy'n effeithio arnynt: mynegiant ymarferol o hyn yw'r hawl newydd yn Adran 13 o'r Bil i blentyn aeddfed sydd â galluedd gael gwrthod asesiad o anghenion, ar ôl ystyried ei les pennaf a barn yr awdurdod lleol am risg;
- yn gwella'r trefniadau pontio drwy'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, ar yr adeg fwyaf tyngedfennol yn eu bywyd wrth iddynt ddod yn oedolion.

Bydd y Bil a'r is-ddeddfwriaeth a chanllawiau a fydd yn deillio ohono'n galluogi plant a phobl ifanc i gael pontio'n well rhwng gwasanaethau. Bydd hefyd yn galluogi gweithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol eraill i edrych ar y teulu cyfan mewn ffordd gyfannol. Ni ellir gweld plant ar wahân i'r teuluoedd a chymunedau y maent yn rhan ohonynt ac mae'r Bil hwn, drwy'r 'Model ar gyfer Pobl' yn gwneud llawer i gadarnhau'r syniad hwn.

Mae Gweinidogion Cymru yn cymryd o ddifrif y pryderon y mae'r Comisiynydd wedi'u cyflwyno. Mae hawliau unigolion, a phlant yn enwedig, yn ganolog i'r ddeddfwriaeth hon. Mae Gweinidogion wedi gweithio'n galed i sicrhau bod plant yn cael eu hystyried yn llawn ac yn briodol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Ar y sail hon, ni fyddai Bil a oedd yn groes mewn unrhyw ffordd i ddeddfwriaeth sydd wedi'i chefnogi'n llwyr gan y Llywodraeth hon ers ei sefydlu wedi cael ei gyflwyno. Rydym wedi ein bodloni na fydd y Bil hwn yn niweidiol i sefyllfa plant. Yr hyn a wnaiff y Bil yw darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer pobl o bob oed ac mae'n gadael digon o gyfle i gydnabod anghenion penodol plant.

Hoffem dynnu'ch sylw at rai o'r prif bwyntiau y mae'r Comisiynydd yn eu gwneud ac at ein hymateb iddynt:

- Er nad yw'r cysyniad o 'blant mewn angen' yn cael ei gadw, mae'r Bil yn gwella'r hyn a ddarparwyd ar y mater hwn o dan Ddeddf Plant 1989 – hynny yw, mae'n rhoi hawl i gael asesiad – ac wedyn yn adeiladu ar sail hynny drwy ddarparu hawl i gael gwasanaeth i'r rheini sy'n gymwys.
- Er nad yw plant anabl wedi'u diffinio yn y Bil, maent wedi'u cynnwys yn y diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb. Bydd meini prawf cymhwysedd ar wahân yn gymwys i blant ac, ar y lefel briodol, byddant yn cynnwys plant anabl. Mewn achosion o'r fath, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth. Bydd plant anabl sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd wedi'u 'pasbortio' am eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso hefyd yn cael eu hystyried yn rhai sydd ag anghenion cymwys ac yn dod o dan ddyletswydd yr awdurdod lleol. Bydd y Dirprwy Weinidog yn rhoi mwy o fanylion am hyn mewn datganiad ar y Fframwaith Asesu a Chymhwystra a gyhoeddir cyn hir.
- Mae'r egwyddor prif ystyriaeth yn Adran 1 o Ddeddf Plant 1989 yn gymwys i lysoedd sy'n gwneud penderfyniadau am blant penodol. Nid yw'n gymwys i awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu dyletswyddau tuag at blant yn eu hardal yn gyffredinol. Nid oes perygl y bydd newidiadau o ganlyniad i'r Bil yn effeithio ar yr egwyddor prif ystyriaeth sy'n cael ei chymhwyso gan y llysoedd.

- Ynghylch y pwyntiau y mae'r Comisiynydd yn eu gwneud am wrthod asesiad gan riant, mae angen nodi bod cydsyniad plentyn sydd â galluedd yn gallu bod yn drech na'r gwrthodiad hwn. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Comisiynydd ar y mater hwn hefyd yn diystyru'r ffaith bod modd anwybyddu gwrthodiad gan blentyn sydd â galluedd hefyd os yw awdurdod "yn amau bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso, neu ei niweidio mewn modd arall" (Adran 13(4)).
- Nid ydym yn cytuno mai cyflwyno Bil Plant yw'r ffordd briodol o ddelio â hyn. Gellid dadlau bod hynny'n dangos y ffordd ymlaen yn gliriach ond, yn ein barn ni, nid yw'n ddim gwell na'r hyn sydd wedi'i gynnig yn y Bil a gyflwynwyd.

<u>Yr angen am Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar wahân ar gyfer Plant – Adrannau 109 a 110 o'r Bil</u>

Mae'r Bil hwn yn ymwneud â phobl.  O ran y ddarpariaeth i gyfuno'r byrddau, er nad oes angen gwneud hyn yn awr o bosibl, mae'r ddarpariaeth wedi'i chynnwys am ein bod yn gweld y byddai mantais yn y tymor hwy o ystyried anghenion diogelu pobl yn gyffredinol yn hytrach nag oedolion a phlant ar wahân. Bydd hyn yn caniatáu i ni gysoni bwriad strategol â chyflawni gweithredol pan fyddwn yn sicr y bydd hyn yn creu trefniadau diogelu mwy effeithiol ar gyfer pawb.

Roedd y Comisiynydd yn aelod allweddol o Fforwm Diogelu Cymru a ystyriodd y mater hwn ymysg eraill a chafwyd argymhelliad gan y grŵp hwn i sefydlu Bwrdd o'r fath.

Nid ydym yn cytuno â'r farn y bydd cyfuno'r Byrddau'n arwain at golli'r gallu i ganolbwyntio ar blant nac oedolion.

Bydd y Panel Cynghori ar Ddiogelu, a sefydlwyd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ystyried y trefniadau sydd eu hangen i weithredu'r darpariaethau yn y Bil ar ddiogelu, gan gynnwys y manylion i'w cynnwys mewn Rheoliadau sy'n ymwneud â'r Bwrdd Cenedlaethol.

Rydym yn falch bod swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi cymryd rhan yn y gwaith hwnnw, ac rwyf yn gwybod bod y Comisiynydd Plant wedi cwrdd â Chadeirydd y Panel ar ddau achlysur o leiaf i drafod y gwaith.

Mae aelodau'r Panel wedi'u penodi ar sail eu gallu i gyfrannu arbenigedd ar ddiogelu mewn sawl maes. Mae hyn yn cynnwys diogelu oedolion, diogelu plant, trefniadau cyffredinol ar gyfer diogelu a materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd a llywodraethu.

Mae'r Panel wedi datblygu rhaglen waith y mae Gweinidogion wedi cytuno arni. Gall Gweinidogion gyfeirio'r rhaglen waith i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar faterion ar gyfer plant neu ar gyfer oedolion os bydd angen gwneud hynny.

Byddwn yn disgwyl cael yr un rhychwant o brofiad yn y Bwrdd Cenedlaethol. Bydd angen i'r Bwrdd fod yn ddigon hyblyg i asesu ei flaenoriaethau ac ymateb iddynt a rhaid i'r ddeddfwriaeth ei alluogi i wneud hynny.

<u>Yr angen i sicrhau bod Byrddau Diogelu Plant ar wahân yn cael eu cadw yn y dyfodol – Adran 117 o'r Bil</u>

Rydym yn cydnabod y pryderon sydd wedi'u mynegi, ond rydym wedi bod yn glir mai un o brif themâu'r Bil yw chwalu rhwystrau ffug sydd wedi'u seilio ar oed. Bil ar gyfer cenhedlaeth yw hwn ac mae'n bwysig gwneud y trefniadau hyn yn addas ar gyfer y dyfodol yn awr drwy sicrhau bod darpariaethau ar gael i alluogi Byrddau i gyfuno os penderfynir mai honno yw'r ffordd orau ymlaen yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rydym wedi datgan yn glir iawn na fyddai hyn yn digwydd oni bai fod modd dangos y byddai gwneud hynny'n gwella'r trefniadau diogelu i bawb. Nid ydym yn credu y dylai rhanddeiliaid deimlo'n anesmwyth ynghylch y ddarpariaeth hon, a byddai Llywodraeth

Cymru yn sicrhau, wrth gwrs, fod ymgynghori trylwyr iawn â rhanddeiliaid cyn cymryd unrhyw gamau i gyfuno Byrddau.

Yr angen i ddiogelu'r hawl statudol i dderbyn gwasanaeth eirioli ar gyfer plant sydd wedi'u rhagnodi – Adran 159 o'r Bil

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ym mis Mehefin gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn egluro gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y fframwaith ar gyfer eiriolaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Byddai hyn yn datblygu ac yn cryfhau'r trefniadau presennol y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer.

Fel y nodwyd yn y Datganiad, bydd y gwelliant a gyflwynir yng Ngham 2 yn cynnwys darpariaethau:

- ar gyfer Rheoliadau i osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i drefnu i wasanaethau eirioli fod ar gael mewn amgylchiadau sydd wedi'u rhagnodi;
- ar gyfer Rheoliadau i fynnu bod gwasanaeth eirioli annibynnol yn cael ei ddarparu i bobl pan fydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i bryder ynghylch risg neu gam-drin;
- sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn hyrwyddo hawl pobl i dderbyn gwasanaeth eirioli ac yn eu hysbysu amdani, gan gynnwys rhai sy'n talu am y gwasanaeth eu hunain;

Byddwn hefyd yn cyflwyno mwy o wybodaeth ynghylch pwy a fydd yn gymwys i dderbyn gwasanaeth eirioli o'r fath o dan y Rheoliadau hyn a bydd hyn wedi'i gynnwys yn y gwaith ar bolisi arfaethedig ar gyfer Rheoliadau yr ydym wedi ymrwymo i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Bydd y fframwaith cymhwystra yn rhoi mwy o fanylion am y mathau o anghenion a fydd yn cael blaenoriaeth. Y meini prawf cymhwysedd fydd y modd i roi blaenoriaeth, er enghraifft, i blant sydd mewn perygl o gael niwed neu blant sy'n anabl.

Dyletswydd i asesu anghenion plentyn lle y mae hynny er lles pennaf y plentyn hyd yn oed os bydd y plentyn neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant yn gwrthod asesiad – Adrannau 13 a 14 o'r Bil

Bydd y fframwaith cymhwystra yn rhoi mwy o fanylion am y mathau o anghenion a gaiff flaenoriaeth.

Y meini prawf cymhwysedd fydd y modd i roi blaenoriaeth, er enghraifft, i blant sydd mewn perygl o gael niwed neu blant sy'n anabl.

Rydym yn credu bod yr adrannau hyn yn hyrwyddo agweddau ar CCUHP ac yn hybu ein hagenda ar hawliau drwy gydnabod bod hawl gan blentyn aeddfed i'w lais gael ei glywed. Felly os bydd y plentyn hwnnw'n dymuno gwrthod asesiad, gall wneud hynny.

O ran gwrthod asesiad gan riant, mae angen nodi bod cydsyniad gan blentyn sydd â galluedd yn gallu bod yn drech na'r gwrthodiad hwn. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Comisiynydd ar y mater hwn hefyd yn diystyru'r ffaith bod modd anwybyddu gwrthodiad gan blentyn sydd â galluedd hefyd os yw awdurdod "yn amau bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso, neu ei niweidio mewn modd arall" (Adran 13(4)).

Yr angen am ystyriaeth ddyladwy i hawliau plant anabl i dderbyn gofal arbennig

Mae'r diffiniad hwn yn y Bil yn cwmpasu pobl o bob oed gan gynnwys plant. Mae'n cadw'r hawl sydd gan blant o dan y gyfraith ar hyn o bryd.

Ynghylch y farn bod y diffiniad o anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn llai manwl ac na fydd o bosibl yn cwrdd ag anghenion plant anabl, nid ydym yn teimlo bod hyn yn gywir. Dyma'r diffiniad diweddaraf sydd ar gael a'r un mwyaf priodol i'w ddefnyddio yn y Bil. Er

hynny, mae gennym bwerau i wneud Rheoliadau y gellir eu defnyddio i ychwanegu at y diffiniad sefydledig yn Neddf Cydraddoldeb, os credwn fod hynny'n briodol. Byddwn yn parhau i ymchwilio i'r maes hwn a byddwn yn ystyried egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd wrth wneud hynny.

Credwn ei bod yn bwysig bod y gallu gennym i newid y categorïau o bobl sy'n cael eu hystyried yn anabl drwy arfer yr hyblygrwydd sydd ar gael drwy gynnwys y pŵer hwn mewn Rheoliadau. Rydym yn siŵr ei bod yn cael ei derbyn bod rhai mathau o anabledd nad ydynt yn newid a bod rhaid darparu ar eu cyfer bob amser, ond y gall mathau eraill o anabledd godi ac y bydd angen diwallu'r anghenion a fynegir ar gyfer yr anableddau hynny. Felly mae angen yr hyblygrwydd sydd ar gael mewn Rheoliadau i ymateb i newidiadau dros amser.

Ynghylch y diffiniad o 'blentyn mewn angen' o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 a'r cysylltiad rhyngddo a'r darpariaethau yn y Bil, mae 'tabl trawsleoli' wedi'i gyhoeddi sy'n dangos lle y mae darpariaethau yn Neddf Plant 1989 wedi'u cynnwys yn y Bil.

Nid ydym wedi ail-greu'r ymadrodd "plentyn mewn angen" yn y Bil a bydd Adran 17, a'r adrannau eraill yn rhan 3 o Ddeddf Plant 1989, yn cael eu diddymu. Nid yw Adran 17 o'r Ddeddf honno'n darparu hawl awtomatig i blentyn anabl dderbyn gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mae'r hawliau yr ydym wedi'u creu yn y Bil yn mynd ymhellach na'r hyn sydd wedi'i ddarparu gan Adran 17 o'r Ddeddf honno drwy greu dyletswydd, ar wyneb y Bil, sy'n cael ei gosod ar awdurdodau lleol i asesu anghenion plant os yw'n ymddangos bod arnynt angen gofal a chymorth a dyletswydd wedyn i ddiwallu'r anghenion hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Bydd plant a phobl ifanc anabl yn cael mantais hefyd o'r trefniadau newydd ar gyfer asesu yn y Bil gan y bydd hawl gan bob person i gael ei asesu. Rydym am sicrhau bod yr asesiad yn gymesur â'r angen er mwyn sicrhau bod mwy o egni'n cael ei gyfeirio at sicrhau atebion ac nid at brosesau asesu biwrocrataidd.

<u>Cryfhau trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – Rhan 6 o'r Bil</u>

Rydym wedi dod i'r casgliad, ar ôl dadansoddi'r gyfraith bresennol, fod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn gweithio'n dda ar y cyfan a'i bod yn cael ei deall yn iawn. Gwnaeth y Comisiynydd Plant sylw ei hun am gryfder y fframwaith polisi a deddfwriaeth presennol yn ei adroddiad Ar Goll Ar Ôl Gofal yn 2011. Rydym yn credu mai'r ffordd orau o gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal yw drwy'r manylion yr ydym yn darparu ar eu cyfer mewn Rheoliadau, y Cod Ymarfer ac yn yr hyfforddiant a gynhelir i roi'r gallu i weithredu'r Bil. Ar y pwynt olaf hwn, mae cyllideb sylweddol yn cael ei darparu i ariannu'r hyfforddiant hwn.

Rydym hefyd yn credu y bydd y prosesau craidd newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, y darperir ar eu cyfer yn y Bil, yn rhyddhau amser gweithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol eraill er mwyn gallu ei dreulio wedyn gyda phlant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd.

Nid ydym yn credu y bydd hawliau statudol y plant sy'n cael eu derbyn i ofal y wladwriaeth yn cael eu lleihau mewn unrhyw ffordd.

Yn ogystal â hyn, bydd gofyniad am gynnal asesiad o lesiant ar lefel y boblogaeth gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar y cyd. Gwneir hyn drwy ddiwygiad i Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Byddwn hefyd yn defnyddio'r Cod(au) Ymarfer i roi cyfarwyddiadau yn y maes hwn ac rydym yn bwriadu gwneud hynny mewn cysylltiad â gofalwyr, rhai sy'n gadael gofal a phlant sy'n derbyn gofal.

**<u>Cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol</u>**

**'Gwrando a Dysgu' sy'n darparu'r fframwaith cyfredol ar gyfer trafod ac ystyried cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol y mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i'w darparu neu eu comisiynu. Yn 2012 bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar**

**adolygiad o weithdrefnau cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd yn cytuno a'r cynigion i ddarparu proses symlach, gan gefnogi gweithdrefn gyffredin ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, gofynodd y Comisiynydd am i'r gweithdrefnau newydd gynnwys mesurau integredig i sicrhau eu bod yn addas at y diben wrth ddiwallu anghenion penodol plant a phobl ifanc.**

**Mae darparu gweithdrefn symlach yn annhebygol o gyflawni nod Llywodraeth Cymru o 'sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr lais llawer cryfach a mwy o reolaeth' lle bo'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr hynny'n blant a phobl ifanc, oni sefydlir dull gwybodus o gefnogi system sy'n mynd ati'n rhagweithiol i hwyluso mynediad i blant a phobl ifanc yn cael ei roi yn ei le. Mae'r Comisiynydd yn galw'n benodol am ddatblygu adnoddau gwybodaeth a phrosesau a fydd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deal ac yn gallu ymarfer eu hawl i gwyno a'u hawl i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae'r Comisiynydd:**

**- Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyflwyno gweithdrefnau cwynion newydd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys mesurau i sicrhau eu bod yn addas at y diben o ran diwallu anghenion penodol plant a phobl ifanc.**

Yn dilyn yr ymgynghori ar y weithdrefn gwyno ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2012 cytunodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i weithredu gweithdrefn gwyno newydd a symlach ac iddi ddau gam ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y weithdrefn newydd yn ei gwneud yn haws ac yn symlach i bawb wneud cwyn, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar hyn o bryd ar reoliadau drafft a bydd yn datblygu canllawiau ar gyfer gweithredu'r rheoliadau hyn. Wrth ddatblygu'r canllawiau hynny byddwn yn gallu sicrhau bod pawb yn ceisio cefnogi plant a phobl ifanc.

Rydym yn ddiolchgar i'r Comisiynydd Plant a oedd yn aelod o'r grŵp cyfeirio a gyfrannodd at ddatblygu'r weithdrefn gwyno ddau gam newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ystyried gwaith y grŵp cyfeirio a'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddatblygu'r gweithdrefnau newydd.

Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar hyn o bryd ar reoliadau drafft a bydd yn datblygu canllawiau ar gyfer gweithredu'r rheoliadau hyn. Bydd yr ymgynghoriad presennol yn ein helpu i sicrhau ein bod y trefniadau'n addas i bawb wrth i ni roi'r weithdrefn newydd ar waith.

**Ecsbloetio plant yn rhywiol**

**Mae'r tystiolaeth o Llywodraeth Cymru o weithredu canllawiau 2011 ar ddiogelu plant a phobl ifanc rhag ecsbloetio rhywiol wedi cael ei rhannu ac mae'nawgrymu bod angen hyfforddiant amlasiantaeth pellach a pharhaus ar y canllawiau diogelu cenedlaethol a Phrotocol Cymru Gyfan ar Ecsbloetio Rhywiol. Nododd yr adolygiad hefyd gefnogaeth eang i gynhyrchu gwybodaeth am ddiogelu ac ecsbloetio plant yn rhywiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n falch bod rhai datblygiadau pwysig yn mynd rhagddynt. Fodd bynnag, mae peth tystiolaeth bod bwlch rhwng polisi ac ymarfer yn dal i fodoli yn yr ymatebion diogelu i ecsbloetio plant yn rhywiol, a bydd y Comisiynydd yn monitro'r sefyllfa'n ofalus. Bydd y Comisiynydd yn hwyluso cam pellach blynyddol o gyfnewid tystiolaeth, i gefnogi'r craffu y bydd y Comisiynydd yn ei wneud ar y cynnydd o ran y mater hwn. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol arfaethedig yn cynnwys ecsbloetio plant yn rhywiol fel eitem sefydlog ac yn rhoi cyfeiriad strategol clir i'r Byrddau Diogelu Plant newydd rhanbarthol ar weithredu polisi diogelu yng nghyswllt y math hwn o gamdriniaeth.**

Mae diogelu plant yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn benderfynol o wneud popeth yn ein gallu i atal camfanteisio rhywiol ar blant yng Nghymru. Mae

Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am yr holl waith y mae'r Comisiynydd Plant wedi'i wneud yn y maes hwn.

Yn Ionawr 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol* a chomisiynodd hyfforddiant ar gyfer eu gweithredu drwy gynnal digwyddiadau hyfforddi ledled Cymru. Bydd y canllawiau a'r digwyddiadau hyfforddi pwysig hyn yn helpu ymarferwyr i adnabod plant sydd mewn perygl, i gymryd camau i'w hamddiffyn ac yn caniatáu i gamau gael eu cymryd yn erbyn cyflawnwyr.

Byddwn yn sicrhau, wrth gwrs, fod y canllawiau hyn yn parhau'n addas ac os bydd angen canllawiau pellach ar gyfer byrddau diogelu bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gyflawni.

Yn ogystal â hyn, mae'r Dirprwy Weinidog wedi lansio taflen wybodaeth yn ddiweddar sydd wedi'i hanelu'n uniongyrchol at blant a phobl ifanc. Cafodd ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i datblygu mewn partneriaeth â Barnardo's Cymru a phobl ifanc gan gynnwys dioddefwyr cam-drin. Bydd yr adnodd hwn yn bwysig iawn o ran helpu pobl ifanc a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol i aros yn ddiogel.

Ar ôl ei sefydlu, bydd y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol yn sicrhau bod materion amddiffyn plant yn cael eu trafod yn glir ac yn fanwl a bydd yn sicrhau bod asiantaethau diogelu allweddol yn cael canllawiau eglur a'r offer statudol sydd eu hangen i gydweithio er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl.

Mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth y Panel Cynghori ar Ddiogelu sy'n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn datblygu trefniadau gweithredol y Bwrdd Cenedlaethol ar hyn o bryd. Bydd y gwaith hwnnw'n helpu i ddatblygu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol, ac ni fyddai'n briodol rhagfarnu canlyniad y gwaith hwnnw.

**<u>Masnachu Plant</u>**

**Mae'r Comisiynydd yn falch bod Grŵp Arweinyddiaeth Cymru yn erbyn Masnachu Pobl wedi cael ei sefydlu, a bod Llywodraeth Cymru wedi pennu mai'r grŵp hwn sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar yr adeg briodol i adolygu gweithrediad y Protocol Cymru Gyfan ar fasnachu plant. Mae e'i swyddfa statws sylwedydd ar y grŵp hwn a bydd yn codi mater adolygu yn uniongyrchol. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu cyllid i gefnogi rhaglen o hyfforddiant a fydd yn cefnogi gweithrediad Protocol Cymru Gyfan ar Fasnachu Plant. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol arfaethedig yn cynnwys masnachu plant fel eitem sefydlog.**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfeiriad strategol clir i'r Byrddau Diogelu Plant newydd rhanbarthol ynghylch gweithredu'r polisi diogelu yng nghyswllt y math hwn o gamdriniaeth.**

Mae masnachu mewn plant yn drosedd ffiaidd a rhaid i bawb wneud popeth yn eu gallu i sicrhau y bydd Cymru'n parhau i geisio atal masnachwyr o'r fath. Rwyf yn gwybod bod Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am y gwaith y mae'r Comisiynydd Plant wedi'i wneud i hybu ymwybyddiaeth o'r trosedd hwn.

Drwy gyhoeddi Protocol Cymru Gyfan ar Fasnachu Plant cafwyd canllawiau ymarferol ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ym mhob asiantaeth i helpu i sicrhau eu bod yn gallu cymryd camau effeithiol a chyson i ddiogelu plant sydd wedi'u masnachu.

Rydym wedi dweud y byddwn yn ystyried rhoi cymorth i sicrhau bod y protocol yn cael ei weithredu'n effeithiol ac, oherwydd hynny, rydym wedi gofyn am awgrymiadau gan lywodraeth leol am y mathau o ddarpariaeth hyfforddi y gallem eu cefnogi yn y dyfodol.

Dim ond drwy gydweithio y gallwn sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer diogelu ac amddiffyn. Ar ôl ei sefydlu, bydd y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol yn cadarnhau'r egwyddor hon a bydd yn gallu dod ag asiantaethau at ei gilydd yn fwy effeithiol, i gryfhau trefniadau diogelu yng Nghymru ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu swydd y Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl yng Nghymru – y gyntaf o'i math yn y DU.

**Ymddygiad rhywiol niweidiol**

**Y llynedd, galwodd y Comisiynydd am fonitro gweithrediad Protocol Cymru Gyfan ar reoli pobl ifanc sy'n ymddwyn mewn modd rhywiol niweidiol, wedi i fersiwn derfynol y protocol gael ei chyhoeddi. Mae'n deall bod y Protocol yn dal yn y broses o gael ei gadarnhau ar lefelau diogelu rhanbarthol a lleol, ac rwy'n gobeithio y bydd modd cwblhau'r broses hon cyn gynted a phosib, er mwyn cynnal arfer effeithiol yng nghyswllt y mater hwn.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bryderon y Comisiynydd Plant ynghylch lefel y ddarpariaeth o wasanaeth ar gyfer plant sy'n ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol.

Yn Ionawr 2011, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y bwriad i lunio protocol ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod dull amlasiantaethol cyson yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru pan fo pryder bod plentyn wedi ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol.

Ers hynny, mae'r protocol wedi'i ddatblygu gan grŵp gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru gyfan sy'n gyfrifol am baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu gweithdrefnau i Gymru gyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn cael trafodaeth â'r grŵp ynghylch y camau y gallai eu cymryd i helpu i roi'r protocol ar waith yng Nghymru.

**Gofalwyr Ifanc**

**Mae'r Comisiynydd yn falch bod pob un ond un o'r Strategaethau Ymgynghori Gwybodaeth i Ofalwyr a datblygu o dan Fesur 2010 a gyhoeddwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) yn cynnwys pennod ar wahân ar ofalwyr ifanc. Mae camau gweithredu wedi'u cynnwys ar draws y strategaethau sydd a'r nod o ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc fel eu bod mewn sefyllfa well i wireddu eu hawliau, ac mae tystiolaeth o lefelau da o ymgysylltu a gofalwyr ifanc wrth ddatblygu'r strategaethau.**

**Yn ei ymateb i'r 'Diweddaru'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru' croesawodd y Comisiynydd y ffaith bod 'gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr' yn dal yn un o'r pum maes blaenoriaeth yn y strategaeth newydd ddrafft. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn brin yng nghyswllt anghenion penodol gofalwyr ifanc ac ystyriaeth ohonynt ar draws y meysydd blaenoriaeth eraill. Mae'n pryderu bod y bennod ar ofalwyr ifanc fel petai heb uchelgais o ran dyheadau ynghylch newid a darparu cyfeiriad cenedlaethol clir ar y mesurau angenrheidiol i wella canlyniadau a sicrhau hawliau i ofalwyr ifanc yng Nghymru.**

**Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn creu un ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad 'gofalwyr' o ofalwyr ifanc lle'r ymddengys y gallai fod gan y gofalwyr anghenion cefnogi.**

**Fodd bynnag, yr unig ddyletswydd ar awdurdod lleol yw i ddarparu ar gyfer anghenion cymorth hynny lle mae'r angen bodloni meini prawf cymhwyster. Nid yw'r meini prawf cymhwyster ar gael eto ac mae gan y Comisiynydd bryderon am yr effaith**

**y gall y meini prawf gael o ran y gofalwyr ifanc hynny a ddiffinnir (neu beidio) o fewn cymhwysedd y meini prawf. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymdrin â'm pryderon ynghylch yr angen am gamau gweithredu clir a chyfeiriad cenedlaethol mwy pendant ar gyfer deiliaid dyletswydd lleol i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc yn Strategaeth Gofalwyr Cymru ar ei newydd wedd.**

**- yn ystod y flwyddyn nesaf mae'n bwriadu ymgysylltu â deiliaid dyletswydd lleol ynghylch y cynnydd wrth ymdrin ag anghenion gofalwyr ifanc yng Nghymru a monitro cynnwys y Strategaethau Gwybodaeth ac Ymgynghori rhanbarthol i Ofalwyr. Bydd y broses hon yn hysbysu adolygiad o argymhellion fy adroddiad 'Bywyd Llawn Gofal'.**

Mae gofalwyr ifanc yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu yn y diweddariad o'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013. Mae pennod ar wahân yn y Strategaeth ar ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Mae'r Strategaeth yn cynnig fframwaith ar gyfer cydweithio rhwng cyflawnwyr dyletswyddau ledled Cymru er mwyn darparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr ifanc, a dod o hyd i ffyrdd arloesol, cynaliadwy a mwy effeithiol i'w cynorthwyo.

Wrth lunio'r diweddariad o'r Strategaeth, rydym wedi ceisio ymateb i bryderon gofalwyr ifanc, a nodi camau gweithredu clir i ddelio'n uniongyrchol â'r materion y maent wedi'u codi mewn meysydd fel iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Cododd y Comisiynydd nifer o bryderon yn ei ymateb i'n hymgynghoriad ar y diweddariad o'r Strategaeth, ac roedd fy swyddogion wedi trafod y rhain â swyddfa'r Comisiynydd wrth lunio'r fersiwn derfynol.

Rydym yn croesawu'n fawr y diddordeb parhaus sydd gan y Comisiynydd mewn gofalwyr ifanc, ac yn edrych ymlaen at gael adborth ganddo am y gweithredu ar y camau ar gyfer gofalwyr ifanc yn y Strategaeth.

Un gofyniad oedd bod pob strategaeth leol yn cynnwys pennod ar ofalwyr ifanc, ac rydym wedi darparu cyllid penodol i bob Bwrdd Iechyd Lleol i'w alluogi i ddatblygu a gweithredu ar y penodau hyn. Rydym wedi gofyn i'r BILlau ddarparu adroddiad cynnydd chwemisol erbyn 31 Hydref eleni, ac adroddiadau blynyddol ym Mai 2014 a 2015.

Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn falch iawn bod y Comisiynydd wedi ymrwymo i fonitro cynnwys y Strategaethau Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr, ac mae'n edrych ymlaen at weld ei adroddiad a'i argymhellion maes o law. Bydd hyn yn ein helpu yn ein gwaith ein hunain ar fonitro'r gweithredu ar y penodau am ofalwyr ifanc yn y strategaethau hyn.

**Camddefnyddio sylweddau**

**Mae camddefnydd problematig o sylweddau yn effeithio'n negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc, yn effeithio ar eu hymgysylltiad addysgol a'u canlyniadau, ac yn cynyddu risgiau ymddygiad troseddol. Daeth ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ganllawiau draft ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau, i ddisodli Cylchlythyr presennol Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn 2002, i ben ym mis Medi 2012. Yn fy ymateb, fe alwais am fwy o ragnodi yng nghyswllt yr angen am ddarparu ymyriadau addysg effeithiol, a seiliwyd ar dystiolaeth ar gamddefnyddio sylweddau, er mwyn sicrhau bod cysondeb yn cael ei gynnig i blant a phobl ifanc. Mae'r Comisiynydd hefyd yn gofyn am well canllawiau i leoliadau addysg yng nghyswllt darparu addysg camddefnyddio sylweddau sy'n briodol i wahanol arddulliau dysgu a lefelau o angen o ran ymyrraeth.**

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed – Camddefnyddio Sylweddau – Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013-15" ym mis Chwefror. Ymddengys mai nifer cyfyngedig o gamau gweithredu sydd wedi'u cyfeirio'n benodol at ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae'n croesawu'r camau a fwriadwyd i wella mynediad i wasanaethau cymorth i deuluoedd ar gyfer teuluoedd sy'n dioddef effaith camddefnyddio sylweddau trwy estyn y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Rhaglen Cryfhau Teuluoedd. Fodd bynnag, hoffai'r Comisiynydd dderbyn mwy o wybodaeth am y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith gyda'r bwriad o sicrhau**
**bod ansawdd a mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled Cymru yn cael eu darparu i bobl ifanc yn ogystal ag oedolion. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gweithrediad y Cynllun Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer 2013-15 yn cynnwys camau i wella ansawdd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau penodol a mynediad iddynt ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru.**

Mae'r Cynllun Cyflawni ar Gamddefnyddio Sylweddau 2013-15 yn disgrifio'r camau penodol a chyffredinol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ansawdd y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r gallu i gael gafael arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i neilltuo £2.75 miliwn o gyllideb ei Chronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau ar gyfer gwasanaethau penodol i blant a phobl ifanc.

Darperir £2.5 miliwn ychwanegol i gynnal Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan sy'n darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau i 98.5% o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru ac i nifer o sefydliadau ymddygiadol addysgol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu offeryn mesur canlyniadau er mwyn mesur effaith y triniaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ymysg rhai dan 18 oed erbyn Mawrth 2014.

<u>**Egwyliau ar gyfer gofalwyr plant a phobl ifanc anabl**</u>

**Rheoliadau Egwyliau ar gyfer Gofalwyr Plant Anabl (Cymru) darparu ar gyfer rhoi ystod o wasanaethau ar waith i gyflawni'r ddyletswydd hon, ac yn gofyn i bod awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi 'Datganiad Gwasanaethau Egwyliau Byr' erbyn mis Medi 2012.**

**Mae'r Comisiynydd yn falch bod y Datganiadau Gwasanaethau Egwyliau Byr a gyhoeddwyd yn cydnabod rol bwysig egwyliau o ran cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a dysgu, a chael mynediad i gyfleoedd newydd i gynnal canlyniadau da. Fodd bynnag, mae rhai o'r datganiadau'n mynd ymhellach nag eraill wrth gyfleu hyn yn eglur fel amcan i'r ddarpariaeth, ynghyd a phwysleisio cyfraniad pwysig egwyliau byr i rieni sy'n ofalwyr a gofalwyr eraill. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu edrych yn fanylach yn ystod y 12 mis nesaf ar effaith y rheoliadau newydd fel y'u dehonglir mewn datganiadau gwasanaeth lleol ar y ddarpariaeth i blant anabl a'u gofalwyr. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn bwriadu gwneud darn penodol o waith yn ystod y flwyddyn sy'n dod, gan edrych yn fanwl ar weithrediad y rheoliadau newydd trwy ddarparu Datganiadau Gwasanaeth Egwyliau Byr lleol.**

Mae Gweinidogion yn croesawu bwriad y Comisiynydd i ymgymryd â gwaith penodol i edrych ar y gweithredu ar y rheoliadau newydd drwy ddarparu Datganiadau Gwasanaethau Seibiannau Byr gan y bydd hyn yn ategu'r gwaith yr ydym ninnau'n ei wneud yn y maes hwn.

Er mwyn cymell pob awdurdod lleol i gydymffurfio'n llwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Short Breaks Network Cymru i gynnal cynhadledd i Gymru gyfan ar ddechrau'r flwyddyn nesaf ar gyfer darparwyr seibiannau byr, rhieni, gofalwyr seibiannau byr, rheolwyr a rheolwyr strategol mewn gwasanaethau i blant anabl. Bydd y gynhadledd yn ailedrych ar y ddyletswydd a'r rheoliadau newydd ar seibiannau byr, yn darparu canllawiau a hyfforddiant ac yn pennu meysydd â blaenoriaeth i'w datblygu. Mae Short Breaks Network Cymru hefyd yn bwriadu dynodi gwirfoddolwyr yn hyrwyddwyr sector rhanbarthol yn y gynhadledd.

Rydym hefyd wedi darparu cyllid i Short Breaks Network Cymru i gynnal adolygiad ar ran Llywodraeth Cymru o'r Datganiad Gwasanaeth y mae pob awdurdod lleol wedi'i lunio fel y nodwyd yn llythyr y Dirprwy Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

Yn ystod y broses adolygu bydd cynghorydd profiadol yn cysylltu'n bersonol â phob awdurdod lleol i sicrhau bod y datganiad wedi'i osod ar ei wefan, ac i'w annog i wneud hynny os oes angen, ac i adolygu'r dogfennau presennol. Ar ôl yr adolygiad hwn, rhoddir adborth adeiladol uniongyrchol i'r holl awdurdodau lleol ar gryfderau eu Datganiadau yn ogystal â meysydd i'w datblygu.

<u>Ynghylch seibiannau preswyl byr i blant anabl yn y dyfodol o dan Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).</u>

Bydd y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer darparu seibiannau byr yng Nghymru'n parhau tan 2016. Ar ôl hynny bydd y fframwaith deddfwriaethol ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dod i rym. Un o amcanion hanfodol y Bil fydd darparu gwasanaethau ataliol a byddwn yn sicrhau bod yr angen parhaus am ddarpariaeth o wasanaethau seibiannau byr yn cael ei gydnabod yn y codau ymarfer a fydd gyda'r Bil.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol drwy Short Breaks Network Cymru i ddatblygu eu Datganiad unigol ar Seibiannau Byr a bydd cyfle yn y blynyddoedd nesaf i awdurdodau lleol gynnwys y ddarpariaeth o seibiannau byr yn eu darpariaeth o wasanaethau ataliol. Mae'n sicr y bydd y gwaith y mae awdurdodau lleol yn ei wneud yn awr yn ddefnyddiol iawn pan gyflwynir y fframwaith deddfwriaethol newydd ac ar gyfer yr asesiad manwl o anghenion eu poblogaeth y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ei gynnal ac ar gyfer darparu gwybodaeth am eu gwasanaethau ataliol.

**<u>Gofal parhaus</u>**

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar ofal parhaus i blant a phobl ifanc yn 2012. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod y canllawiau'n ymdrin a rhai o'r pryderon a nodais yn fy ymateb i'r ymgynghori.**

**Mae'n falch bod y canllawiau yn awr yn cyfeirio at weithdrefn gwynion y gwasanaethau iechyd, 'Gweithio i Wella – Mynegi Pryder am Wasanaethau Iechyd'. Fodd bynnag, mae'n pryderu nad yw'r canllawiau'n mynd i'r afael yn ddigonol a'r problemau cysylltiedig ag anghydfod ariannu yng nghyswllt pecynnau gofal parhaus. Nid yw'n credu bod cyfeirio at y broses o ddatrys anghydfod a nodwyd yn y canllawiau a'r rheoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gyflwynwyd yn 2007 yn briodol nac yn ddigonol. Yn ol y canllawiau, bydd angen i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer delio gydag anghydfodau sy'n deillio o ddiffyg cytundeb ynghylch cyfrifoldebau ariannu, ac mae'n cyfeirio at yr angen am sicrhau bod rhaid i les y plentyn barhau'n bwysicach na dim. Fodd bynnag, nid yw'n eglur bod unrhyw fesur wedi'i sefydlu i graffu ar gynnwys a gweithrediad cytundebau datrys anghydfod lleol.**

**Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y bwriad i sicrhau bod y canllawiau newydd**

**hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol trwy raglen hyfforddi i gefnogi gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth yn eu hymateb i adroddiad blynyddol diwethaf y comisiynydd. Mae gweithredu'r canllawiau hyn yn effeithiol yn allweddol i sicrhau bod Erthygl 24 o CCUHP yn dod i rym, fel bod modd i blant fwynhau'r safon uchaf bosib o iechyd a mynediad at gyfleusterau trin salwch ac ailsefydlu iechyd. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu cynnwys a gweithrediad gweithdrefnau lleol ar gyfer delio gydag anghydfod yng nghyswllt cyfrifoldebau ariannu pecynnau gofal parhaus. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhaglen hyfforddi i gynnal gweithrediad y canllawiau newydd hyn yn cael ei chyflwyno'n brydlon.**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhaglen hyfforddi i gynnal gweithrediad y canllawiau newydd hyn yn cael ei chyflwyno'n brydlon.**

Nid yw'r Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc yn rhoi arweiniad ar gynnwys y pecynnau gofal parhaus, na sut y cânt eu hariannu. Mae hyn yn fwriadol. Nid bwriad y canllawiau yw rhagnodi ac ni all gymryd lle gweithio mewn partneriaeth a phenderfynu'n lleol ynghylch anghenion gofal parhaus plant a phobl ifanc unigol. Rhaid seilio hyn ar anghenion a asesir. Fodd bynnag, mae Adran 2.9 o'r canllawiau yn nodi'n glir na ddylai anghydfod arwain at oedi wrth gael at ofal iechyd priodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Academi Cymru a Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru i baratoi Cwrs Hyfforddiant E-Ddysgu ar gyfer Cymru Gyfan i'w ddefnyddio gan bawb sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau gofal parhaus i blant mewn Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a'u partneriaid. Disgwylir i'r rhaglen hyfforddi gael ei chyflwyno tua dechrau'r flwyddyn nesaf.

**<u>Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth</u>**

**Yn adroddiad blynyddol y llynedd fe gododd y Comisiynydd bryderon am ddiffyg eglurder ynghylch statws cyfredol y FfGC ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth ac am dystiolaeth ynghylch gweithrediad gwael rhai o'r safonau a geir yn y Fframwaith. Un o fanteision y Fframwaith yw ei fod yn mabwysiadu dull llesiant sy'n cynnwys ffocws ar ymatebion cymdeithasol yn ogystal a rhai meddygol i anghenion iechyd plant a phobl ifanc. Cyflwynodd ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad blynyddol yr angen am adolygu'r FfGC a datblygu rhaglen sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu ar iechyd plant yn cael eu cyflwyno mewn modd cydlynus. Nid oes tystiolaeth o hyd bod adolygiad o'r fath wedi'i gynnal, a does dal ddim eglurhad ynghylch statws y FfGC yn awr nac yn y dyfodol. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu datganiad clir o fwriad yng nghyswllt statws y FfGC i blant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth yn awr ac yn y dyfodol.**

Mae adroddiad diweddaraf (2012-13) Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant yn dangos bod cynnydd parhaus wedi'i wneud o ran cyrraedd y safonau ym mhob ardal yng Nghymru. O'r 203 o safonau, mae 158 wedi'u cyflawni'n llawn neu bron yn llawn (sgôr o 5 neu 6).

Yn awr, mae angen ffordd newydd o fynd ati gan fod rhai o'r safonau'n hen yn sgil gwybodaeth newydd neu ffiniau trefniadol newydd. Hefyd, ers i'r Fframwaith gael ei roi ar waith, mae nifer o strwythurau a mecanweithiau adrodd allweddol wedi newid. Yn benodol, nid yw'r trefniadau Cynllunio Integredig Sengl, a yrrir drwy'r Partneriaethau a'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc bellach yn ymarferol gan nad ydynt bellach yn bodoli yn ardaloedd rhai awdurdodau lleol.

Yn ogystal, mae cyfres o gynlluniau cyflawni a ddefnyddir bellach ar gyfer gwasanaethau iechyd wedi'u llunio o amgylch canlyniadau perthnasol i blant a chânt eu defnyddio i wella effeithiolrwydd gwasanaethau i blant.

Nid yw'r adolygiad o'r Fframwaith wedi'i gynnal eto, ond mae'r safonau'n parhau i fod yn ffynhonnell dda o gyngor i sawl asiantaeth a'u partneriaid - mae'n rhaid i ni geisio datblygu hyn.

Caiff adolygiad cyfyngedig o'r Fframwaith ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ac fe wnaiff Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at y Comisiynydd Plant gyda manylion ein cynigion ymhen deufis.

**Cadeiriau olwyn**

**Cynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad dilynol i wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru, a chyhoeddi eu hadroddiad ym mis Awst 2012. Mae'r Comisiynydd yn falch bod yr ymchwiliad wedi nodi cynnydd sylweddol o ran amserau aros ar gyfer gwasanaethau pediatrig. Roedd argymhellion y Pwyllgor yn cynnwys yr angen am ystyried cyfleoedd ariannu ar y cyd fel modd i ymdrin ag angen cymdeithasol yn ogystal ag angen clinigol trwy ddarparu ystod o gyfarpar. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn disgwyl i Lywodraeth Cymru barhau i fonitro darpariaeth cadeiriau olwyn pediatrig er mwyn sicrhau bod y cynnydd yn cael ei gynnal a'i gyfleu i rieni a gofalwyr.**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth ddyledus i fesurau y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi darparu cyfarpar sy'n ymateb i angen cymdeithasol yn ogystal ag angen clinigol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i wasanaethau cadeiriau olwyn pediatrig drwy fuddsoddi £2.2 miliwn o arian cylchol mewn gwasanaethau cadeiriau olwyn pediatrig ledled Cymru. Mae Cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran lleihau amseroedd aros i'r safon a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant ac mae'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar wedi cyrraedd y safonau a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant.

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r Comisiynydd Plant ei bod wedi ymrwymo i sicrhau cynnydd parhaus drwy reoli perfformiad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol a hefyd drwy gyhoeddi rhestrau aros ar wefan ddiwygiedig y Gwasanaeth Cyfarpar ac Aelodau Artiffisial.

Bydd defnyddwyr gwasanaethau pediatrig a gofalwyr yn gallu rhoi adborth a sylwadau am y gwasanaeth drwy'r wefan ddiwygiedig a'r 'cabanau' gwybodaeth sydd ar gael yn y clinigau.

Ar gais y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru Bwrdd Partneriaeth Ystum Corff a Symudedd wedi comisiynu prosiect i ymchwilio i'r mater hwn. Adolygwyd adroddiad terfynol y prosiect gan y Bwrdd Partneriaeth Ystum a Symudedd, is-grŵp o WHSSC, ar 31 Hydref 2013 a bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor WHSSC ar ddydd Mawrth 26 Tachwedd 2013.

**Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol**

**Mae'r Comisiynydd yn pryderu nad yw'r fframwaith fel petai'n rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion a hawliau unigryw plant a phobl ifanc. Enghraifft o hyn yw'r ffaith na cheir unrhyw gyfeiriadau uniongyrchol at gyfleoedd chwarae, hamdden, diwylliannol nac artistig (Erthygl 31) a chamau gweithredu i ymdrin a rhwystrau i fynediad plant**

**anabl, sy'n golygu nad yw'r Fframwaith yn gwneud Erthygl 31 yn fwy effeithiol. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol cyn cyhoeddi drafft terfynol, fel ei fod yn cynnwys camau gweithredu sy'n ceisio gwneud CCUHP yn fwy effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yng Nghymru.**

Mae'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol wedi'i gyhoeddi bellach. Roedd hyn yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori eang â phobl anabl a'u sefydliadau cynrychiadol. Mae'r ddogfen derfynol yn cyfeirio'n uniongyrchol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a sut y mae'r Fframwaith yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad i wireddu hawliau plant. Mae'n canolbwyntio'n fwy penodol ar blant a phobl ifanc, gan nodi'r pwysigrwydd o roi sylw i blant yn gyntaf er mwyn creu cymdeithas sy'n gynhwysol ac sy'n galluogi pobl. Mae'n cyfeirio at yr angen i feithrin hyder y plant anabl eu hunain a datblygu ymagwedd annibynnol ar ddechrau eu bywyd drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ac addysg ysgol prif ffrwd. Bydd hyn yn ei dro yn eu helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac ennill y cymwysterau addysgol y bydd arnynt eu hangen i symud ymlaen i addysg bellach neu uwch a/neu eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd am gyflogaeth.

Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar y model cymdeithasol o anabledd a'r neges bod nifer mawr o bobl anabl a allai gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas pe byddai'r rhwystrau i gynhwysiant yn cael eu dileu. Yn aml bydd y rhwystrau i gynhwysiant mewn chwarae, hamdden a chyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol i blant yn cael eu hachosi gan rwystrau ffisegol rhag mynediad neu agweddau meddwl negyddol, ac mae'r Fframwaith yn trafod y ddau beth hyn.

Nod y Fframwaith yw helpu plant ac oedolion anabl i fyw bywydau llawn ac annibynnol. Mae'r meysydd sydd â blaenoriaeth yn y Fframwaith wedi'u pennu gan bobl anabl eu hunain, gan gynnwys plant a phobl ifanc anabl, am eu bod yn credu mai'r rhain yw'r pwysicaf er mwyn cyrraedd y nod hwnnw.

Bydd plant anabl a phlant i rieni anabl yn cael mantais o'r cynigion, hyd yn oed os bydd y fantais yn anuniongyrchol mewn rhai achosion. Er enghraifft, bydd camau i sicrhau bod mwy o drafnidiaeth hygyrch ar gael yn helpu plant ac oedolion anabl, a bydd camau i wella cyfleoedd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn dod â manteision sy'n pontio'r cenedlaethau.

**NOD 4: CAEL MYNEDIAD I GYFLEOEDD CHWARAE, HAMDDEN, CHWARAEON A DIWYLLIANNOL**

**<u>Chwarae</u>**

**Mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro gweithrediad y dyletswyddau ar chwarae a gynhwyswyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar Ganllawiau i gefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswyddau fel y nodwyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 11, ar Gyfleoedd Chwarae. Seiliwyd y ddyletswydd hon ar Reoliadau sy'n nodi pa faterion sydd i gael eu hystyried wrth asesu a oes gan Awdurdod Lleol gyfleoedd chwarae digonol i blant yn ei ardal. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cyhoeddi eu Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae yn ddiweddar, a bydd fy swyddfa'n eu dadansoddi.**

**Croesawodd y Comisiynydd y cyfarwyddyd a roddwyd yn sgil y canllawiau ar fesurau i gefnogi mannau mwy diogel i blant a phobl ifanc trwy fesurau arafu traffig ac eraill, a'r angen am ddatblygiad cymunedol a diogelwch i gefnogi mynediad i fannau chwarae diogel. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi croesawu'r ffaith bod rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion plant sy'n bobl anabl wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Mesur. Bydd i ba raddau y gellir darparu'r hawl i chwarae o dan Erthygl 31 o CCUHP yn dibynnu nawr ar y camau a gymerir gan awdurdodau lleol i ymdrin a'r materion a nodwyd yn yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu ansawdd y cynlluniau gweithredu a ddatblygir mewn ymateb i'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a monitro'u gweithrediad.**

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu dros chwarae ac mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'r Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o CCUHP. Mae hyn yn pwysleisio'r hawl sydd gan bob plentyn i fwynhau hamdden, chwarae a gweithgareddau diwylliannol ac mae'r pwyllgor yn annog gwladwriaethau'n gryf i ystyried cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau'r hawl hon.

Yn ystod Mawrth 2013, cafodd Llywodraeth Cymru Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan bob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Roedd Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a "Creu Cyfleoedd i Chwarae", y Canllawiau Statudol ar eu cyfer, yn nodi'r materion y mae angen eu hystyried yn yr asesiadau a'r Cynlluniau Gweithredu ar Chwarae.

Drwy eu hasesiadau, mae'r awdurdodau lleol bellach wedi disgrifio amrywiaeth eang o ffactorau sy'n effeithio ar y cyfleoedd i chwarae sydd gan blant, gan ddangos y cryfderau a'r diffygion ym mhob ardal. Mae'r rhain yn cynnwys mannau agored; darpariaethau chwarae; codi tâl am ddarpariaethau chwarae; mynediad i fannau agored; gwybodaeth; y gweithlu a'r holl feysydd polisi sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae. Ymhlith y rhain y mae addysg/ysgolion; y system cynllunio gwlad a thref; traffig; trafnidiaeth; iechyd a lles, y blynyddoedd cynnar, gofal plant a mentrau teuluol a datblygu cymunedol. Maent hefyd yn asesu'r graddau y mae'r cyfleoedd ar gael i'r holl blant. Mae'r cynlluniau gweithredu'n dangos y camau i gadw cryfderau a chywiro diffygion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi adborth i'r awdurdodau lleol ar yr asesiadau a'r cynlluniau gweithredu a thrwy gydol y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn cydweithio â nhw i rannu a datblygu'r amrywiaeth eang o gamau gweithredu adeiladol ac arloesol sydd wedi'u disgrifio yn y cynlluniau. Ymhlith y rhain y mae defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau addysgu; cau strydoedd i ddarparu lle ar gyfer chwarae; mwy o gydweithio ar bolisi ac ymarfer cynllunio i hyrwyddo chwarae; a datblygu ymwybyddiaeth gymunedol, gweithgareddau a gwobrau am chwarae.

Mae chwarae'n elfen yn Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'n darparu ar gyfer datblygu cynllun gweithlu 10 mlynedd ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Bydd hyn o gymorth i ddatblygu gweithlu chwarae cymwysedig a medrus i hyrwyddo'r agenda ar chwarae yng Nghymru.

## NOD 5: CAEL EU TRIN A PHARCH A CHAEL CYDNABOD EU HIL A'U HUNANIAETH DDIWYLLIANNOL

**Eiriolaeth – Lleisiau Coll**

**O'u hymatebion i Lleisiau Coll, roedd yn amlwg bod llawer o ewyllys da ar ran y Llywodraeth, awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth i wneud pethau'n iawn. Serch hynny, rwyf wedi cael fy siomi gan gyflymdra'r newid, gan fod y cynnydd yn rhy araf, ac ymhlyg yn hynny mae'r ffaith fod plant a phobl ifanc yn dal i fethu derbyn y manteision a all fod ar gael iddynt yn sgil cymorth eiriolaeth.**

**Mae'r Comisiynydd wedi trafod gyda'r Dirprwy Weinidog a swyddogion ar ol cyhoeddi Lleisiau Coll, ond mae'n teimlo'n rhwystredig ynghylch y diffyg cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a amlinellais yn yr adroddiad. Croesawodd Cynhadledd Llywodraeth Cymru ar Eiriolaeth ym mis Chwefror 2013, a sefydlu'r Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn bwriadu parhau i ddal Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gyfrif am y ddarpariaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol, a byddai'n parhau i gynnull cyfarfodydd o randdeiliaid allweddol i sicrhau y cyflawnir newid i blant a phobl ifanc.**

**- bydd yn gwneud darn arall o waith ddwy flynedd wedi Lleisiau Coll, ac yn cynnal adolygiad ehangach o'r cynnydd, gan ganolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, gan gymharu hynny â'r argymhellion a bennodd ar eu cyfer yn 'Lleisiau Coll'.**

Mae Gweinidogion Cymru yn falch bod y Comisiynydd yn parhau i graffu ar y ddarpariaeth o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol sy'n cael eu galw gan y Comisiynydd yn gyfle da i adolygu datblygiadau yn yr agenda hon.

Mae canllawiau ar gael i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar y gwasanaethau eirioli y dylent eu darparu ar gyfer grwpiau penodol o plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae Gweinidogion yn disgwyl i'r ddarpariaeth hon fod ar gael.

Er bod rhywfaint o feirniadu wedi bod ar wasanaethau eirioli yn ddiweddar ac er bod gwaith i'w wneud, wrth gwrs, rhaid cofio hefyd fod gwaith arloesol a mentrus yn digwydd yng Nghymru. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y llyfr achosion ar arferion da a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ar ddechrau'r flwyddyn.

Cafwyd cynnydd sylweddol hefyd ar weithredu argymhellion y Comisiynydd yn Lleisiau Coll. Cyhoeddwyd ein hymateb i Lleisiau Coll ar 22 Mehefin 2012 lle y nodwyd y camau gweithredu arfaethedig ar bob un o'r argymhellion i'r Llywodraeth. Roeddem wedi cyhoeddi diweddariad ar y cynnydd wedyn yn Chwefror 2013 yn y Gynhadledd Eiriolaeth Flynyddol.

Bellach mae Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol a Grŵp Arbenigwyr Pobl Ifanc wedi'u sefydlu i gynghori Gweinidogion. Mae'r Gweinidog wedi rhoi i'r ddau grŵp hyn y dasg o ystyried y materion a'r argymhellion a godwyd gan y Comisiynydd yn Lleisiau Coll, sy'n cynnwys:

- Comisiynu a darparu gwasanaethau eirioli;
- Arolygu a rheoleiddio eiriolwyr/gwasanaethau eirioli;
- Hyfforddiant ar gyfer eiriolwyr proffesiynol annibynnol
- Comisiynu eiriolaeth ar draws sectorau h.y. Iechyd ac Addysg;
- Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth ar lefel genedlaethol a lleol;
- Darparu eiriolaeth i grwpiau arbennig o blant a phobl ifanc, fel plant ifanc iawn, plant ag anableddau dysgu, corfforol a meddyliol;
- Darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc o fannau eraill yn y DU sy'n derbyn gofal yng Nghymru, ac i'r rheini o Gymru sy'n derbyn gofal mewn mannau eraill.

Mae Gweinidogion wedi cwrdd â'r Cadeirydd, sydd eisoes wedi adrodd ar eu cynnydd a'u canfyddiadau cyntaf. Erbyn diwedd y flwyddyn bydd y Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol yn darparu adroddiad ac argymhellion i Weinidogion ar gomisiynu gwasanaethau eirioli annibynnol o fewn y sector Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd Gweinidogion yn cyhoeddi datganiad ar y cyd cyn hir i roi diweddariad ar gylch gwaith y Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol a'r Grŵp Arbenigwyr Pobl Ifanc ac ar safbwynt y Llywodraeth.

Bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cynnal arolygiad cenedlaethol ynghylch Diogelu a Chynllunio Gofal Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal, sy'n amlygu ymddygiad sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu berygl. Bydd y fethodoleg, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, yn cynnwys cwrdd â phlant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal i ofyn am eu barn am ansawdd y cymorth y maent yn ei gael. Bydd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn cael ei dreialu mewn un awdurdod yn Ionawr 2014 ac yn cael ei gynnal wedyn ym mhob un o'r 21 o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru rhwng Chwefror a Mai 2014. Nod yr arolygiad fydd pennu a yw'r camau a gymerir yn yr holl awdurdodau lleol ynghylch ansawdd cynllunio gofal:

- yn effeithiol o ran cynorthwyo a diogelu Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal;
- yn effeithiol o ran adnabod a rheoli ffactorau sy'n peri bod Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal yn agored i niwed ac yn ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i berygl;
- yn hyrwyddo ymarfer wedi'i seilio ar hawliau a llais y plentyn;
- yn hyrwyddo gwell canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal;
- yn cydymffurfio â pholisi a chanllawiau.

Er mwyn sicrhau ansawdd o ran comisiynu a darparu gwasanaethau eirioli, rydym wedi cydweithio ag AGGCC i ddatblygu ac ymgynghori ar ddrafft o Safonau Cenedlaethol a Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Mae'r rhain wedi cael derbyniad da iawn a byddant yn cael eu diwygio ar ôl ystyried yr adborth. Y bwriad yw y byddant yn dod o dan y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

**<u>Cyfranogiad</u>**

**Canllawiau Llywodraeth Cymru ar strategaethau cyfranogiad lleol, sydd bellach wedi cael eu cyhoeddi ar ffurf Atodiad i'r Canllawiau Cydamcanu-Cydymdrechu ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau. Cynghorwyd awdurdodau lleol fod modd cyflawni'r dyletswyddau cyfranogiad o dan Fesur Plant a Theuluoedd 2010 trwy strategaeth ymgysylltu'r cynllun sengl integredig. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ffaith bod cyfeiriad at CCUHP, y Mesur Hawliau a'r 7 nod craidd yn yr Atodiad.**

**Bydd ei swyddfa yn asesu cynnwys Cynlluniau Sengl Integredig awdurdodau lleol yng nghyswllt cyflawni'r ddyletswydd gyfranogiad a gynhwyswyd yn y Mesur ac yn y canllawiau. Byddaf hefyd yn casglu gwybodaeth gan Swyddogion Cyfranogiad a Gweithwyr Fforymau Ieuenctid ledled Cymru i asesu effaith newidiadau mewn strwythurau a pholisi cynllunio ynghylch hyrwyddo Erthygl 12 o CCUHP yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n fanwl gyflawniad y dyletswyddau cyfranogiad o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 gan awdurdodau lleol trwy Gynlluniau Sengl Integredig ac effaith hynny ar strwythurau cyfranogiad lleol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan, yn Cydamcanu – Cydymdrechu – Atodiad B, y byddwn yn “monitro’r trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc.” Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid i bennu’r prif ystyriaethau a meysydd i’w datblygu yng nghyswllt cyfranogi. Mae hyn wedi bod o gymorth i bennu’r cyfeiriad y byddwn yn mynd iddo a’r materion y mae angen eu hystyried.

O ganlyniad i hyn, byddwn yn gwahodd rhanddeiliaid i gynhadledd ym mis Chwefror i bennu a rhannu arferion da, i ailddatgan safbwynt Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cyfranogi a phennu ffyrdd o hyrwyddo cyfranogi yng nghyd-destun cyffredinol hawliau plant.

Rydym yn sicrhau’r Comisiynydd y byddwn nid yn unig yn craffu ar Gynlluniau Integredig Unigol (ynghyd â’r cynlluniau gweithredu perthnasol sy’n gysylltiedig â nhw), ond y byddwn hefyd yng ngwanwyn/haf 2014 yn ymweld ag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn deall sut y maent yn cyflawni’r ddyletswydd hon ac i sicrhau bod trefniadau lleol ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i deimlo bod eu llais yn cael ei glywed a’u bod yn cymryd rhan ac yn cael eu cynnwys.

**<u>Gwaith ieuenctid</u>**

**Mae'r Comisiynydd wedi galw am fynd ir afael ag oedi wrth ailwampio Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol 2007 ac yn siomedig bod strategaeth wedi'i diweddaru heb gael ei gyhoeddi eto . Er bod disgwyl i Lywodraeth Cymru i ymgynghori ar strategaeth gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol newydd cyn bo hir , mae’n pryderu bod hyn yn arwydd o culhau ffocws ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru .**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bwriad i gyhoeddi cynllun newydd Ymgysylltu Ieuenctid a Fframwaith Dilyniant a Gweithredu yn ddiweddarach eleni . Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei gyhoeddi i hwyluso trosglwyddo o'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth 2011-2015 ar hyn o bryd i'r Fframwaith newydd a fydd yn canolbwyntio ar chwe bloc adeiladu allweddol sy'n ymddangos i fod yn cyfeirio'n benodol at y mater o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg , cyflogaeth na hyfforddiant.**

**Mae cymeryd camau i fynd i'r afael â lefelau o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg , cyflogaeth a hyfforddiant yn bwysig, yn enwedig yng nghyd-destun lefelau cynyddol o ddiweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Fodd bynnag, mae’n bryderus na ddylai’r ffocws hwn ddigwydd ar draul y manteision ehangach o gynnig gwasanaeth ieuenctid sy'n seiliedig ar hawliau sy’n cefnogi lles cyfannol pobl ifanc. Mae’r Comisiynydd:**

**- Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y ffocws ar hawliau o fewn y gwasanaethau ieuenctid yn unol â CCUHP fel y'i cyflwynwyd yn Ymestyn Hawliau ddim yn cael ei golli yn y newid i ffocws mwy strategol a deilliannau sy'n gysylltiedig â'r agenda NEETs culach .**

Nid yw Cynllun Gweithredu’r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid (a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2013) yn disodli’r canllawiau presennol ond yn hytrach yn darparu enghreifftiau o sut i ddarparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid mewn ffyrdd penodol.

Rydym yn bwriadu ymchwilio ymhellach i’r ffordd y mae’r cyd-destun presennol o ran polisi a deddfwriaeth yng Nghymru’n hyrwyddo polisi ar gyfer yr holl bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed gan gynnwys y cysylltiadau â’r polisi a deddfwriaeth bresennol a’u perthnasedd i’r agenda hon. Byddwn yn ystyried hyn yng nghyd-destun y Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid, y Strategaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid a nifer o feysydd perthnasol eraill, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i'r egwyddor a bennwyd yn Ymestyn Hawliau: dull o weithredu wedi'i seilio ar hawliau sy'n canolbwyntio ar y person ifanc i ymgysylltu'n well â'r holl bobl ifanc a gwella'r dilyniant ar eu cyfer er mwyn helpu pob person ifanc yng Nghymru i wireddu ei botensial mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Yng nghyswllt y Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid, mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiweddaru'r Strategaeth. Yn Awst 2012, gohiriodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru er mwyn gallu datblygu'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid ac ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid allanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers amser maith i sicrhau mwy o ymgysylltu a dilyniant ar gyfer pobl ifanc. Rhoddwyd gwybod i randdeiliaid am y newid hwn.

Er Tachwedd 2012 mae swyddogion wedi cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Prif Weithredwr a Chadeirydd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, prif swyddogion ieuenctid, CLLC ac Estyn i ffurfio gweledigaeth newydd ar gyfer Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae swyddogion wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Trydydd Sector i ffurfio syniadau pellach ac ysgrifennu gweledigaeth newydd.

Datblygwyd y drafft o'r weledigaeth newydd i ategu'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid. Yn Hydref 2013 cyhoeddwyd y cynllun cyflawni ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid. Mae'r fframwaith hwn yn hyrwyddo dull mwy effeithiol a systematig o adnabod pobl ifanc sydd ag angen cymorth a sicrhau eu bod yn cael y cymorth angenrheidiol i ddod yn ôl i'r llwybr iawn. Mae'r fframwaith yn disgrifio'r elfennau mewn system sydd wedi profi'n effeithiol o ran sicrhau mwy o ymgysylltu a dilyniant ar gyfer pobl ifanc. Mae argymhelliad yn y cynllun fod awdurdodau lleol yn rhoi rhan allweddol i'w Gwasanaeth Ieuenctid, er mwyn ymgymryd â rôl y Gweithiwr Arweiniol os yw'n briodol.

Datblygwyd y drafft o'r weledigaeth newydd yn unol â'r cyngor gan y cyn Weinidog Addysg a Sgiliau a Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg fod angen ffocws yn yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n cydnabod bod gwaith ieuenctid hefyd yn cyfrannu at nifer o agendâu eraill y Llywodraeth.

Rydym wedi newid teitl y strategaeth o 'Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid' i 'Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid' er mwyn gwahaniaethu rhwng darparu gwaith ieuenctid a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ehangach. Cafwyd ymgynghoriad llawn ar y weledigaeth a blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cydnabod bod gwaith ieuenctid yn cynnig ffordd neilltuol o hybu datblygiad pobl ifanc o ran addysg bersonol a chymdeithasol. Mae hefyd yn cydnabod bod darpariaeth sy'n cynnig mynediad agored yn bwysig ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mwy penodol ac arbenigol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r strategaeth newydd. Bydd y strategaeth newydd yn adlewyrchu'r angen i Wasanaethau Ieuenctid barhau i ddarparu gwasanaethau mynediad agored a gwasanaethau mwy penodol i gynnwys pobl ifanc a hybu eu datblygiad personol a chymdeithasol. Byddwn yn sicrhau na chollir y dull o weithredu wedi'i seilio ar hawliau a gyflwynwyd yn Ymestyn Hawliau.

**<u>Plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches ac asesiadau oedran</u>**

**Mae'r Comisiynydd wedi galw o'r blaen ar Lywodraeth Cymru i fonitro cynnydd ar weithrediad y Canllawiau Ymarfer newydd ar asesiadau oedran, a gynhwyswyd yng nghanllawiau Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar ddiogelu a hybu lles plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid. Ers hynny, mae UKBA wedi cynnull Gweithgor yng Nghymru sydd wedi cynhyrchu papur opsiynau ar**

**gyflwyno Asesiadau Oedran yng Nghymru yn y dyfodol. Cynigiwyd pum opsiwn i'r gweithgor. Mae'r Comisiynydd wedi argymell model amgen – Panel Amlasiantaeth Annibynnol, fel y cynigiwyd yn yr ymateb a gyflwynwyd ar y cyd gan holl Gomisiynwyr Plant y DU i ymchwiliad y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol (JCHR) i hawliau dynol plant a phobl ifanc mudol ar eu pen eu hunain yn y DU, gyda ffocws penodol ar y rhai sy'n ceisio lloches neu sydd wedi dioddef cael eu masnachu.**

**Yn y model a ffefrir gan y Comisiynydd mae'n cyflwyno yr achos dros weithdrefn ffurfiol ar gyfer penderfynu ar les pennaf plant ar eu pen eu hunain a rhai a wahanwyd, a bod y trefniadau cyfredol yn annigonol. Ynghyd a Chomisiynwyr Plant eraill y DU, mae'n croesawu'r cyhoeddiad sydd i ddod gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid (UNHCR) a UNICEF, a fydd yn darparu canllawiau manwl ar gyfer penderfynu ar les pennaf plant sydd wedi'u gwahanu ac sydd ar eu pen eu hunain mewn gwledydd diwydiannol (Cyd-destun Ewropeaidd). Bydd y canllawiau'n ceisio cynorthwyo Gwladwriaethau i sefydlu proses lles pennaf a fydd yn cwmpasu asesiadau lles pennaf, cynllunio llwybr a'r penderfyniad lles pennaf a fydd yn cysylltu a'r trefniadau presennol ar gyfer lloches, mudo ac amddiffyn plant. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ym mha ffyrdd y gellir defnyddio canllawiau UNHCR a UNICEF ar benderfyniadau lles pennaf ar gyfer plant ar eu pen eu hunain a rhai a wahanwyd mewn gwledydd diwydiannol a'u haddasu i gyd-destun Cymru, yn unol â dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP.**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Bartneriaeth Mewnfudo Cymru i ddatblygu pecyn cymorth Asesu Oedran i sicrhau bod y broses asesu oedran ledled Cymru yn cael ei gwella a'i chyflawni'n fwy cyson.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod trefniadau amddiffyn plant yng Nghymru heb eu hail a byddwn yn ystyried unrhyw drefniadau sy'n ceisio amddiffyn plant yn well, yn enwedig rhai ar gyfer y plant yng Nghymru sydd yn y perygl mwyaf o gael eu cam-drin.

Rydym yn deall nad yw canllawiau UNHCR ac UNICEF ar benderfynu ynghylch y 'lles pennaf' i blant sydd wedi'u gwahanu ac sydd ar eu pen eu hunain mewn gwledydd diwydiannol wedi'u cyhoeddi eto, a byddwn yn aros nes cânt eu cyhoeddi.

**NOD 6: MEDDU AR GARTREF A CHYMUNED DIOGEL**

**Cyfiawnder ieuenctid**

**Mae'r Comisiynydd wedi croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i egwyddor trin y sawl sydd ag ymddygiad troseddol, neu sydd mewn perygl o droseddu, fel plant a phobl ifanc yn gyntaf yn unol ag ysbryd y CCUHP. Fodd bynnag mae wedi galw am ddangos asesiad cliriach o'r polisi yn erbyn y ddyletswydd i roi ystyriaeth ddyladwy i'r CCUHP drwyddi draw yn y Papur Gwyrdd ar 'Gynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid neu sydd eisoes yn rhan ohoni'.**

**Ei farn yw y dylai'r holl asiantaethau gan gynnwys gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a thai weithio i sicrhau bod atal troseddu gan bobl ifanc yn ganlyniad gwasanaeth. Os yw plentyn neu berson ifanc yn cael achos i ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid, dylid ystyried hyn yn fethiant ar ran y system ac nid yn ganlyniad i ddiffyg yn y plentyn neu'r person ifanc. Mae'r Comisiynydd wedi egluro ei gefnogaeth i'r cynnig i gryfhau dyletswyddau cyfredol ac atebolrwydd awdurdodau lleol a'u partneriaid dros y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid drwy'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Papur Gwyn Cartrefi i Gymru a Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Hoffai weld y Diwygiadau arfaethedig i Fframwaith Deddfwriaethol Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu cynnwys yn y rhestr hon o bolisïau perthnasol.**

**Mae wedi croesawu bwriad y dull a gynigir yn Neddf Cymorth Cyfreithiol Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr Llywodraeth y DU sy'n ceisio lleihau achosion diangen o blant yn cael eu remandio'n ddiogel.**

**Mae'r Comisiynydd yn falch fod Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru'n cynnwys y cynnig y dylid trin plentyn neu berson ifanc a ddedfrydir i'r ddalfa fel unigolyn 'sy'n derbyn gofal' gan yr awdurdod dynodedig. Hyd yma nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro ei bwriad o ran symud ymlaen â'r cynigion a geir yn y Papur Gwyrdd. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod y cynigion yn y Papur Gwyrdd ar sail statudol.**

Mae rhai o'r bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid ymysg y bobl ifanc fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Os bydd person ifanc yn cael cofnod troseddol yn gynnar yn ei fywyd, gall hynny gyfyngu potensial y person ifanc a'i gau allan o feysydd cyflogaeth a chyfleoedd eraill. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant a phobl ifanc wedi creu dull polisi unigryw wedi'i seilio ar hawliau sy'n wahanol i'r dulliau mewn rhannau eraill o'r DU, ac mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan wedi'i seilio ar egwyddorion CCUHP. Cryfhawyd yr ymrwymiad hwn ymhellach yn 2011 pan fabwysiadwyd CCUHP yn rhan o gyfraith ddomestig Cymru, y wlad gyntaf yn y DU i wneud hyn. Mae'r ddarpariaeth hon wedi helpu i wella lles a chanlyniadau'r bobl ifanc sydd yn y system, yn enwedig yn y meysydd sydd wedi'u datganoli sy'n effeithio ar gyfiawnder ieuenctid fel iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thai. Dim ond drwy gryfhau ein gwasanaethau yng Nghymru yn y meysydd hyn y gallwn fabwysiadu dulliau mwy creadigol, arloesol ac ysbrydoledig o ddelio â'u problemau a'u hanghenion yn gynnar yn eu bywyd, gan helpu'r rheini mewn cymdeithas sy'n neilltuol o agored i niwed ac yn ddifreintiedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei *Rhaglen Lywodraethu* i ystyried yr angen am ddeddfu i gryfhau polisïau yn y meysydd sydd wedi'u nodi uchod, er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd gan yr holl bartneriaid ar gyfer plant sydd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng Medi a Rhagfyr 2012 i ofyn am farn ynghylch cynigion i

wella gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ac i bennu a oes angen deddfu i roi’r newidiadau hyn ar waith.

Croesawyd y cynigion yn y Papur Gwyrdd ac roedd yr adborth i’r ymgynghoriad yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn o blaid cryfhau a gwella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae’n fwyfwy amlwg bod grŵp o bobl ifanc sydd â llawer o anghenion cymhleth iawn ac nad oes dull cydgysylltiedig o weithredu rhwng gwasanaethau i sicrhau bod yr anghenion hynny wedi’u diwallu.

Mae Strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i symud ymlaen ar ran helaeth o’r gwaith hwn, ond bydd angen deddfu ar gyfer meysydd eraill. Ni fydd popeth sydd yn y Papur Gwyrdd yn cael ei gynnwys yn y Bil; bydd rhai camau’n cael eu cymryd drwy ein Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid newydd. Bydd y Bil yn cynnwys 3 maes yn unig: ffyrdd gwell o ddelio ag anghenion pobl ifanc sydd wedi cael dedfryd gymunedol ‘tariff uchel’; darparu gwell cymorth i bobl ifanc sydd wedi’u dedfrydu i’r ddalfa; a chreu partneriaethau ailsefydlu amlasiantaethol i ailsefydlu pobl ifanc yn effeithiol ar ddiwedd dedfryd yn y gymuned neu’r ddalfa.

**<u>Tai a digartrefedd</u>**

**Mae’r Comisiynydd yn dal i fod yn bryderus am y niferoedd cynyddol o aelwydydd oedd yn cael eu derbyn fel rhai digartref ac effaith newidiadau i reolau budd-dal tai fel rhan o ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU o ran cynnydd pellach yn y ffigurau digartrefedd. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn gweithio’n galed i ddileu effeithiau’r newidiadau hyn ar eu tenantiaid. Fodd bynnag, mae’n pryderu’n arbennig am dystiolaeth bod staff tai awdurdodau lleol yn cynghori rhieni sengl sydd a phlant ifanc i dderbyn lletywr. Nid yw effaith lawn y newidiadau i fudd-dal yn amlwg eto, ac mae ganddobryderon difrifol ynghylch canlyniadau’r newidiadau hyn i lesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru.**

**Mae’r Comisiynydd yn croesawu’r ymrwymiad a gafwyd yn Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ‘Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell’ i ddileu digartrefedd teuluoedd erbyn 2019.**

**Mae’r Papur Gwyn yn cyflwyno cynigion i ddarparu gwasanaeth ymgynghorol cyson ar dai, a bydd yr Comisiynydd yn disgwyl gweld mesurau sicrhau ansawdd clir yn cael eu sefydlu. Disgrifiodd pobl ifanc iddo staff amharod i helpu oedd yn cael trafferth ymateb i’r galw yng ngoleuni adnoddau tai cyfyngedig, ac nad oedd pobl ifanc yn credu bod ganddyn nhw ddiddordeb yn eu hanghenion nac mewn sicrhau unrhyw sefydlogrwydd tai iddyn nhw. Mae’n falch bod materion fel y rhain wedi cael eu cydnabod yn y Papur Gwyn. Mae’r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ddileu digartrefedd ieuenctid yn ogystal â digartrefedd teuluoedd erbyn 2019, a hynny trwy newidiadau a gyflwynwyd i’r Bil Tai sydd i ddod.**

Rydym yn bryderus iawn o hyd ynghylch y posibilrwydd o duedd hirdymor at ddigartrefedd a fydd yn digwydd, yn ein barn ni, wrth i’r toriadau diwygio lles mwyaf cosbol ddod i rym. Mae amgylchiadau o ran tai wedi dod yn llawer mwy ansefydlog i deuluoedd o ganlyniad i bolisïau economaidd Llywodraeth y DU.

Mae’r Gweinidog Tai ac Adfywio yn bwriadu cynnwys y rhan fwyaf o’r cynigion ar ddigartrefedd a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyn ac yr ymgynghorwyd arnynt y flwyddyn ddiwethaf yn y Bil Tai.

Bydd y cynigion craidd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu cymorth i bawb sydd ag angen tai ac yn gwella’r camau i atal digartrefedd.

Mae digartrefedd ymysg plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth o hyd a bydd hyn wedi'i adlewyrchu ym manylion y Bil pan gaiff ei gyhoeddi.

**Adfywio cymunedau**

**Cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd' ar gyfer ymgynghori ym mis Hydref 2012, o ganlyniad i adolygiad polisi o agweddau at adfywio a gychwynnwyd gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth. Bwriad yr adolygiad a'r fframwaith dilynol yw chwilio am ffyrdd newydd o ddarparu gwell canlyniadau trwy weithio'n gydlynus a hysbysu gweithrediad egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru bod datblygu cynaliadwy yn allweddol i drechu tlodi a hybu cyfle cyfartal.**

**Yn e'i ymateb i'r ymgynghoriad, noddodd y Comisiynydd ei bryderon nad oedd dyletswydd y Gweinidog i roi sylw dyledus i CCUHP o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn cael ei hadlewyrchu'n ddigonol yn y fframwaith polisi. Er bod materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc fel aelodau o'r gymuned yn cael eu cynnwys, fel y mae rhai mesurau canlyniadau perthnasol, galwodd am ystyriaeth gadarnach i oblygiadau'r fframwaith polisi fel offeryn i hybu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.**

**Mae felly yn siomedig felly nad yw draft terfynol y Fframwaith hwn, a lansiwyd ym mis Mawrth 2013, yn ymdrin a'r pryderon a gododd yn ei ymateb i'r drafft ymgynghori. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r mesurau sydd ar waith i sicrhau bod gweithrediad y fframwaith adfywio yn ymdrin yn fwy uniongyrchol ag anghenion plant a phobl ifanc, ac yn hyrwyddo eu hawliau.**

Mae'r buddsoddiad o £90 miliwn drwy'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn mynd i'r afael â thlodi ac mae'r ddogfen fframwaith yn dangos sut y bydd yn helpu i gynnig y dechrau gorau posibl i'n plant.

Mae'r ddogfen bolsi'n cyfeirio'n benodol at y cyfleoedd i wella gofal plant a darpariaeth ar gyfer chwarae. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ddatblygu eu cynigion mewn partnerieth â'u cymunedau ac ystod eang o randdeiliaid. Byddwn yn sgorio cynigion yn ôl y graddau y maent yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a sut y bydd y cynigion yn mynd i'r afael â thlodi.

Rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Rydym wedi egluro i awdurdodau lleol fod y cynllun i gynnwys camau effeithiol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth i'r gweithgareddau adfywio fynd yn eu blaen, ac wedi tynnu eu sylw at yr amrywiaeth o waith ymchwil y mae'r Comisiynydd Plant wedi'i nodi.

## NOD 7: HEB FOD O DAN ANFANTAIS YN SGIL TLODI

**Tlodi Plant**

**Pan gyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ym mis Mehefin 2012, roedd yn destun pryder arbennig i'r Comisiynydd fod y fframwaith clir, seiliedig ar hawliau, yn unol a dyletswydd Gweinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP, i bob golwg wedi cael ei golli. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bwriad i gyflwyno fersiwn wedi'i hadnewyddu o'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ym mis Mehefin 2013.**

**Canlyniad tlodi teuluoedd yw tlodi plant. Ond mae dull tlodi plant o fynd i'r afael a hyn yn sylfaenol wahanol i ddull tlodi teuluol. Mae dull tlodi plant yn gwneud y plentyn yn ganolog i bob mesur polisi ac yn cydnabod y plentyn fel un sydd a hawliau sy'n estyn y tu hwnt i'r teulu. Unwaith mae wedi'i roi yng nghyd-destun hawliau plant, ar sail CCUHP, daw unigrywiaeth y dull o ymdrin a thlodi plant i'r amlwg, a hynny ddylai ysgogi pob menter polisi i wrthweithio tlodi plant.**
**Mae tystiolaeth glir yn awr, yn fwy nag erioed, bod rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu eu dull o weithredu ac ystyried camau cadarn, wedi'u cyfeirio, i ymdrin ag anghenion a hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc sydd mewn tlodi. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys mesurau cadarn yn y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi diweddaraf, er mwyn trechu tlodi plant yn benodol trwy ddull seiliedig ar hawliau, yn unol â'r ddyletswydd sydd ar y Gweinidog i roi sylw dyledus i CCUHP.**

Mae'r dull o drafod tlodi plant yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi wedi'i seilio ar hawliau plant a phobl ifanc yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan gydnabod bod trechu tlodi yn ymwneud â gwella lles plant yn ogystal â delio â thlodi incwm. Wrth ymateb i alwad y Comisiynydd am weithredu gan y Dirprwy Weinidog drwy ganolbwyntio ar dlodi plant yn yr agenda ar drechu tlodi, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dull o weithredu wedi'i seilio ar hawliau'r plentyn (gyda ffocws cryf ar ganlyniadau) yn cael ei ddefnyddio.

Cafwyd cynnydd gwirioneddol ar gysoni blaenoriaethau a chanlyniadau strategol rhwng y Rhaglen Lywodraethu, y Strategaeth Tlodi Plant, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Mae pob un o Weinidogion Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo blaenoriaethau'r cynlluniau a'r strategaethau hyn. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn wedi rhoi mwy o gyfle i wella'r canlyniadau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn gosod targedau a cherrig milltir penodol sy'n ceisio cynnig y dechrau gorau mewn bywyd i blant yng Nghymru, i wella canlyniadau ar gyfer plant ac i wneud popeth sy'n bosibl i atal plant heddiw rhag bod yn oedolion tlawd y genhedlaeth nesaf. Mae hyn yn gyson â'r ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ac yn mynd law yn llaw â'n dyletswydd i roi hawliau'r plentyn ar ganol ein polisïau.

Ymhlith yr ymyriadau i helpu i atal plant rhag mynd i dlodi y mae ein Strategaeth Mamolaeth sy'n helpu mamau i ddewis yn ddoeth ynghylch beth y maent yn ei fwyta a'i yfed yn ystod eu beichiogrwydd fel bod eu plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae 'Adeiladu Dyfodol Disglair' ein Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant hefyd yn disgrifio ein ffordd o weithredu ar gyfer y blynyddoedd cynnar hanfodol ac mae cysylltiad uniongyrchol rhyngddo a'r canlyniadau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i'r targed ar gyfer Dileu Tlodi Plant erbyn 2020. Cyhoeddir adroddiad erbyn diwedd y flwyddynym mis Tachwedd ar ein cynnydd ar y Strategaeth Tlodi Plant. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi sy'n rhoi sylw manwl i ganlyniadau ar gyfer plant. Yn ogystal â hyn, cyhoeddir adroddiad gwerthuso ar y Strategaeth Tlodi Plant yn Rhagfyr 2013.